Dewiswch y gair neu'r geiriau sy'n cyfateb orau i ystyr gweddill y frawddeg

1. O dan amgylchiadau anodd, roedd y perfformiad yn un ………………… ……… iawn
a) buddugol b) arbennig c) gwahanol ch) rhyfedd d) gweddol

2. Rhaid diolch i Mr. Evans am roi'r holl flynyddoedd hyn…………………i ni.
a) o farn b) o gyngor c) o gymeriad d) o reolaeth ch) o wasanaeth

3. Nid swydd i rywun ………………………yw hon. Mae eisiau person sy'n mynd i dynnu ei bwysau.
a) blinedig b) diwyd c) diog ch) llonydd d) ysgafn

4. Roedd rhywun wedi …………………'r pren yn batrymau cymleth
a) crafu b) naddu c)peintio ch) rhwygo d) toddi

5. Mae'r twll yn yr ia wedi………………drosodd erbyn hyn
a) caledu b) cloi c ) llenwi ch) rhewi d) toddi

6. Arhoswch ………………..i fi gael meddwl yn iawn!
a) damaid b) enaid c) eiliad ch) gyfnod d) oes

7. a ddisgynnodd yn ystod y nos wedi diflannu i raddau …………………
a) eang b) gwych c) helaeth ch) llydan d) pwys8.

8. Rhaid bod rhywun wedi bod yn ……………………y cae heddiw: mae'r tir newydd ei droi
a) aredig b) cynhaeafu c) dyrnu ch) medi d) ymladd.

9. Dwi wedi bod yn darllen ……………..yr aelod newydd yn y Senedd ddoe
a) pregeth b) sgwrs c) darlith ch) araith d) siarad i

10. Does neb yn sicr pryd yn union y dechreuodd yr arferiad o wisgo ……………...ar Fawrth 1
a) bathodyn b) cenhinen c) dillad ch) draig d) telyn




## LASAGNE

Cynhwysion:-

1. 1 winwnsin mawr (i ffrio)
2. 1 garlleg
3. 1pwys o gig eidion wedi ei falu
4. 1 tin bach o domatos
5. Halen a phupur
6. ¼ peint o ddwr neu stoc cig eidion.

**DULL**

1 Coginio'r cig mewn padell ffrio gan ei droi yn aml
2. Ychwanegwch y tomatos, halen a phupur, y winwns a'u cymysgu.
3. Rhoi mewn sosban a'u berwi'n araf am tua 20 munud.

**SAWS**

1. owns o fenyn
2. 2 owns o fflwr plaen
3. 1 peint o laeth
4. Caws wedi ei ratio.

Berwch yn araf gan ei droi nes ei fod yn tewhau.

Mewn dysgl sgwar, trefnwch y pasta (gellwch eu prynu mewn pacedi), cig, saws, am yn ail gyda'r saws ar y top. Gratiwch y caws ar ben y cyfan a choginiwch mewn ffwrn gwres 190°C neu 375°F nes ei fod wedi brownio.

SHWLDIWMWL.CYMRU
CRYSAU
WEDI
ARGRAFFU
A SIOP
AR-LEIN
sales@shwldimwl.cymru 01994 448626



Rhys Jones
Glanhawr Simnai
Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stôfiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiadau llawn
☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL



Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler

Cyfarfu'r gangen yn Yr Hen Ysgol ar nos Fawrth, Mawrth 15fed. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd, Eileen, a braf oedd ei chael hi nôl gyda ni yn dilyn llaw-driniaeth fawr.

Llongyfarchwyd Rita a'i gŵr, Don, ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Marina sydd wedi derbyn llaw-driniaeth. Llongyfarchwyd Nia ar y ffenest â addurnwyd gogyfer â Gŵyl Ddewi. Roedd y llun ar dudalen gweplyfr y mudiad.

Croesawodd Eileen y siaradwraig wadd, sef Natalie Jones o San Cler. Mae Natalie yn gweithio i Gyngor Hil Cymru a chafwyd noson ddiddorol iawn yn clywed hanes ei bywyd a bywyd ei theulu; ei mamgu a'i mam wedi dod i Brydain o Jamaica yn rhan o'r genhedlaeth Windrush. Soniodd, hefyd, am y profiadau hiliol mae hi a'i theulu wedi'u gwynebu. Braf iawn oedd cael cwmni rhwydd Natalie a chael ei holi am agweddau o'i bywyd a'i gwaith.

Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Marian. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd y wobr raffl gan Margaret Rees ac fe'i henillwyd gan Sally.



Cyfarfod y gangen yn yr Hen Ysgol

## Cangen Gronw

Ar brynhawn dydd Iau, 31ain Mawrth cyfarfu yr aelodau am y tro cyntaf ers tipyn o amser yn festri Ramoth Cwmfelin, ein cartref arferol. Croesawodd Meinir bawb a chydymdeimlwyd ag Eirwen Robinson ar farwolaeth ei mam yng nghyfraith. Soniwyd hefyd am yr aelodau ffyddlon sy'n methu dod mwyach oherwydd afiechyd, Nansi, Rhoswen ac Irene. Roedd mor hyfryd i weld ein gilydd a dal fyny. Llwyddwyd i drefnu rhaglen am y flwyddyn nesaf a gwibdaith eleni ar y 26ain o Fai. Cewch ragor o wybodaeth gan y swyddogion. Mwynhawyd te a bisgedi ar y diwedd a diolchwyd i'r rhai fu yn gweini.

## Cangen Hendygwyn

Buon ni'n ddathlu Gŵyl Ddewi fel arfer ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis yng Nghanolfan Hywel Dda drwy fwyta llond ein boliau o gawl bendigedig a goginiwyd i ni gan Christine James. Cawsom ein sbwylo ganddi achos ar ôl y cawl roedd digonedd o bancws, bara brith a welsh cakes i'w mwynhau ynghyd â disgled fach o de a baratowyd gan Petra a Yvonne.

Roedd syrpreis gan Ann James i ni achos, ar ôl y wledd, dangosodd hi D.V.D. i ni o'r ddrama 'Gloyn Byw' a enillodd Cystadleuaeth Ddrama Llyfrgell Dyfed nôl yn yr wythdegau. Y dair actores wych oedd Alwena Smith, Eunice Thomas a Linda Durrel. Yn dilyn cawsom fwynhau gwylio'r gan actol 'Hwylio' a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Dyfed, eto yn yr wythdegau. Profiad chwerw felys oedd gweld wynebau cyn aelodau ffyddlon talentog ein cangen yn cael cymaint o sbort yn perfformio. Diolch byth bod cofnod gyda Ann o'n gorffennol disglair!

Hoffem ddymuno'n dda i Doreen Adams sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Llwynhelyg. Bydd ein cyfarfod nesa ar 19eg o Ebrill am 4 o'r gloch yn y ganolfan pan fydd Janet Knott yn siarad am 'Hen Greiriau Meddygol'.Edrychwn ymlaen.

# Cornel Garddio

*gan W John Davies, Hendygwyn*

Heddiw, ar y bumed o Ebrill mae'r tywydd yn oer ofnadwy i arddwyr, a hyn ar ôl mis Mawrth twymaf mewn cof. Felly, mae pridd yr ardd a naws da ynddo i hau hadau mân a phethau felly. Er hyn, mae'r pridd braidd yn sych, a byddai tywydd cawedog mis yma, sef Ebrill, yn ddefrydol, heblaw amser y lleuad lawn canol y mis. Mae'n bosib y cawn nosweithiau rhewllyd eto, ond mae'n bosib cawn dymor tyfiant arbennig o gynnar.

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy
Paentiwr ac Addurnwr
Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Mae person sydd â gardd newydd wedi gofyn, a yw canol y mis hwn yn rhy ddiweddar i blannu tato? Dim o gwbwl, yn enwedig os yw'r pridd yn llawn hadau chwyn - plannwch yn gynnar a bydd y chwyn yn tyfu'n gynt na'r tato. I ddelio â'r chwyn, plannwch tua'r trydydd wythnos o'r mis ac fe ddaw y tato lan, mwy neu lai o'u blaen. Mae hyn yn hwyluso a lleihau'r gwaith o ddelio â'r chwyn, oherwydd mae dail y tato yn tyfu yng nghynt ac yn cadw'r golau dydd oddi ar y chwyn odanynt. Wedi dweud hyn, mae mis Ebriill yn ddelfrydol i blannu tato mewn gerddi, ond mae gofyn cadw llygaid barcud yn nhymor lleuad llawn misoedd Ebrill a Mai drwy orchuddio gwrysg y tato. Os bydd yn ddigon oer i gael rhew dros nos, bydd y tato hyn yn tyfu'n iach drwy mis Mehefin ac yna yng Ngorffennaf, pan fydd y dail yn dechrau gwiwo neu troi lliw, torrwch y gwrysg i ffwrdd. Yn y cyfamser, gallwch dynnu a bwyta'r tato newydd fel bod angen.

Mae y briallu a phob math o flodau bychan wedi blodeuo yn arbennig o dda eleni ac fel bod y blodeuo yn dod i ben, mae'n bosib eu codi, eu hollti lan yn fechan a'u hail blannu. Os gwnewch hyn, cadwch lygaid, a bydd gofyn eu dyfrhau, yn enwedig os bydd yr Haf yn sych. Mae'r Cennin Pedr yn dod i ben hefyd ac i gryfhau y blodau blwyddyn nesaf, torrwch yr hen flodau i ffwrdd, ond dim y coesau. Gadewch rhain i farw nôl yn naturiol a gallwch eu symud ac ail blannu y bylbiau nes ymlaen. Canol Haf, os yn ail blannu, peth da yw rhoi llawn dwrn fechan o weryd dan bob bylb unigol. I wella y blodau blwyddyn nesaf, peth da yw eu dyfrhau yn mis Medi, yn enwedig os cawn dywydd sych. Cofiwch pan yn plannu Cennin Pedr, rhowch pob bylb i ddyfnder ddwy waith eu maint.

Yn bersonol, nawr yn mis Ebrill, byddaf yn plannu ond digon i'r wraig a minnau o hadau mân, oherwydd fod fy oedran yn gwasgu braidd yn galed erbyn hyn. Mae cynnyrch y llynedd sydd yn y rhewgell, yn dod i ben, ac ni allaf gofio blwyddyn erioed heb fod na llawn gardd o fwyd yn tyfu adref. Cofiaf mamgu yn dweud sut oedd bwyd yn brin blwyddyn olaf y rhyfel mawr cyntaf, a rwyf innau yn cofio prinder yr ail ryfel byd. Credwch fi, roedd yr ardd yn werthfawr bryd hynny a gallaf ond dychmygu petai pob unigolyn yn y wlad ma yn tyfu ond hanner dwsin o letys, faint llai o lygredd angeuol fydd yn cael ei greu.

# COLOFN LLEN

**TOSTURI** gan Menna Elfyn




Bardd, lllenor a dramodydd yw Menna Elfyn ac yn Athro Emerita ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant.


Mae ganddi ffordd unigryw o farddoni ac mae'r casgliad diweddar hwn yn gerddi sy'n marwnadu ac yn moli, yn cofio ac yn pryfocio, yn herio ac yn tosturio wrth i'r bardd ymateb i'r camweddau a wnaed yn erbyn menywod dros y canrifoedd.

Mae yma hefyd gerddi hunangofiannol, cerddi wedi'u hysgogi gan y cyfnodau clo diweddar, cerddi gwleidyddol a cherddi am fyd natur.

I gyd-fynd a'r cerddi, ceir darluniau trawiadol gan yr arlunydd Meinir Mathias.

**TOSTURI. Cyhoeddiadau Barddas; Pris £9.95**

# Twm Carnabwth




Yng Nghaffi Beca ar nos Wener, Mai 13eg, lansir llyfr 'Ar drywydd Twm Carnabwth' sy'n olrhain hanes yr arwr lleol ac yn esbonio cefndir yr hyn a arweiniodd at Derfysg y Becca.

Mae'r llyfr yn gywaith wedi'i drefnu gan Clychau Clochog gyda chymorth arian y Loteri Treftadaeth. Dyma damed i aros pryd.

Mae'r awdur, Hefin Wyn, yn cyflwyno tystiolaeth sy'n profi, yn groes i'r dybiaeth gyffredinol, nad oedd gan adnod o Lyfr Genesis ddim oll i'w wneud â dewis enw i'r mudiad.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth Cyflogau
Cadw Cyfrifon Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians


Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# BLAENWAUN

**Moriah**
Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul, 3ydd Ebrill. Ffocws yr oedfa oedd Sul y Blodau a sut gallwn ni wneud datganiad o'n ffydd a dilyn dymuniad Iesu. Chwaraewyd eitemau cerddorol a cyfoethogwyd yr oedfa gan Côr Dydd, Côr Cana, Côr Meibion Caernarfon a disgyblion Ysgol Glan Clwyd. Trefnwyd danfon rhodd at Apêl Wcrain ar ddiwedd yr oedfa

**Trefn yr oedfaon**
Ebrill 17eg. 3 yp. Cymun Pasg Parchedig Gareth Ioan.
Mai 1af 1.30yp. Parchedig Gareth Ioan.
Mai 15fed 2 yp. Cymun Nigel Davies.

**Blaenwaun**
Pob dymuniad da i Gareth Davies, Pilmawr a ddathlodd ei benblwydd yn 85 oed ar y 3ydd Ebrill. Pob dymuniad da wrth bawb yn yr ardal.

# MEIDRIM

**Henoed**
Croesawodd Glyn James 26 o aelodau a oedd wedi dod i wrando ar Gwawr Lewis yn siarad.
Cawsom glywed am ei gwaith fel cynhyrchydd gyda chwmni teledu "Tinopolis". Roedd yn ddiddorol i glywed am y gwahanol agweddau o'i gwaith-ymweliadau â'r Alban, Iwerddon a Seland Newydd i enwi ond rhai.
Diolchwyd iddi gan Glen Lewis.

Bydd y cyfarfod nesa ar Fai 3ydd yn Neuadd Ieuenctid Meidrim, pan fydd Glyn a Jan Harbour yn ein diddori.

Wrth y tê - Eileen Thomas, Jennifer Price, Glenda Badhams a Meirion Morris.
Yn rhoi raffl - Patsy Lewis, Lilian Rees, Lyn Herbert a Violet Thomas.

# CWMBACH

Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth Margaret Robinson, Waunllan yn 94 oed. Bu'n organyddes yn Eglwys Llanwinio am nifer o flynyddoedd ac yn aelod gweithgar o Sefydliad y Merched Llanwinio; yn gyn-lywydd a thrysorydd. Bu'r angladd yn Eglwys Llanwinio yng ngofal y Parch Kingsley Taylor a Phil Higginson. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'i gŵr Peter a'r plant Daphne a Colin a'u teuluoedd.

**Sefydliad y Merched**
Yng nghyfarfod mis Chwefror bu Chris Hadley yn dangos sut i wneud cardiau Pasg ac yna bu'r aelodau yn rhoi cynnig arni. Ym mis Mawrth daeth Lucy Bates o siop trin gwallt La-d-Da's San Cler i ddweud wrthym am sut i ofalu am ein gwallt gan sôn am y gwahanol bethau sydd ar werth i'n helpu.

## Ymddeoliad Hapus

Llongyfarchiadau i Jiwli Higginson, Llys y Gwynt ar ei hymddeoliad o fyd addysg yn Sir Benfro. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddiolch i Mrs Higginson am ei chyfraniad gwerthfawr i Ysgol y Frenni yn ystod y 14eg mlynedd diwethaf. Dechreuodd Jiwli'i gyrfa yn Ysgol Penffordd ym 1981 ac ar ôl gadael i fagu teulu ym 1987, bu'n gwneud gwaith cyflenwi tan ddechrau'r 90au. Treuliodd ryw dair blynedd wedyn fel athrawes fro, cyn cael swydd fel athrawes ddosbarth yn Ysgol Bwlchygroes.

Cafodd ei phenodi'n fuan fel pennaeth dros dro yn yr ysgol honno, gan barhau gyda'r swydd hon nes i'r ysgol gau'i drysau yn y flwyddyn 2000.
Ysgol Clydau oedd yr ysgol nesaf i Jiwli, lle bu'n gwasanaethu fel pennaeth am 8 mlynedd.

Gorffennodd ei gyrfa fel pennaeth yn Ysgol y Frenni o 2008 hyd 2022. Dymuniadau gorau am ymddeoliad hir a hapus, Jiwli.



Gwelir yn y llun Anwen Eleri, Cadeirydd Pwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Ysgol y Frenni'n cyflwyno rhodd iddi yn ystod gwasanaeth arbennig yn yr ysgol.



Jiwli gyda'r rhoddion â dderbyniodd

# CEFNYPANT

Llongyfarchiadau a penblwydd hapus i Grismond Lewis, Llwynllwyd a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Ebrill 2il. Llawer o gariad wrth y teulu i gyd.

Croeso cynnes i Jo a Sandra sydd wedi dod i fyw i Llwyncelyn, Cefnypant

# LLANGYNIN

**Diolch**

Dymuna Gerwyn, Sharon, Marian a theulu'r ddiweddar Martha Griffiths, Blaencorse, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'u cymdogion am yr holl gardiau, blodau, galwadau ffôn a phob arwydd arall o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli gwraig, mam a mamgu annwyl iawn.

Diolch i bob un am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Martha tuag at Gymdeithas Alzheimer's. Diolch arbennig i deulu estynedig Martha yng Nghartref Gofal Plasydderwen am y gofal tyner a'r cyfeillgarwch a dderbyniodd yno, Diolch i'w gweinidog y Parchedig Rhodri Glyn Thomas a'r Parchedig Emyr Gwyn Evans, Ebenezer, Abergwili, ac i'r organyddes Heather Williams am eu gwasanaeth yn yr oedfa gofiadwy a theimladwy yng Nghapel Bethlehem ac ar lan y bedd ym Mynwent Nasareth. Dymuna'r teulu ddiolch yn ddiffuant hefyd am y trefniadau angladdol parchus a thrylwyr gan Ken a Lynys Davies, Clunderwen. Diolch o galon i bawb.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau mawr i Elin Haf Jones, Ger-y-Bryn, sydd wedi derbyn gradd Dosbarth Cyntaf mewn Mathemateg o Brifysgol Abertawe. O'r diwedd daeth y cyfle iddi wisgo ei chap a'i gŵn mewn seremoni raddio ohiriedig ar gyfer myfyrwyr 2020.

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Myrddin Parri, Erw Lon, wedi iddo dreulio ychydig amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch wella, Myrddin!

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Richard a Jayne Thomas a'r teulu, Sŵn yr Awel, ar farwolaeth mam Richard sef Delia Thomas o Feidrim.

**Croeso**

Croeso i Richard a Nicki Morgan a'r teulu sydd wedi ymgartrefu yn Llys-y-gwynt, a chroeso hefyd i John Morgan, tad Richard, sydd wedi dod i fyw yn Y Bwthyn. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartrefi newydd.

**Pen blwyddi arbennig**



Dymuna Granville Davies, Angorfa, ddiolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu caredigwrydd a'r holl gardiau a rhoddion a dderbyniodd pan yn dathlu ei ben blwydd yn naw deg oed ar Fawrth 23ain .

Pen blwydd hapus iawn i Granville unwaith eto a llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddo oddi wrth y teulu i gyd.

Llongyfarchiadau a phen blwydd hapus hwyr hefyd i Richard Pinker, y Mount, a oedd yn 80 oed ar yr un diwrnod, sef Mawrth 23ain.

**Noson Gawl**

Nos Iau, Mawrth 10fed, cynhaliwyd Noson Gawl lwyddiannus a hwyliog yn Neuadd y Bryn a braf oedd cael cyfle i gymdeithasu unwaith eto a mwynhau cwmni cyfeillion hen a newydd wedi'r ddwy flynedd ddiwethaf sydd wedi profi'n rhai anodd iawn i bob un ohonom. Diolch o galon i Rhian White am drefnu cwis difyr a hwyliog ar gyfer pob bwrdd - roedd pob un wedi cael sbri ac wedi dysgu nifer o ffeithiau diddorol wrth geisio ateb y cwestiynau am Gymru. Diolchodd Caroline Jones, y Cadeirydd, i bob un am eu cefnogaeth, i Mary Edwards a'r gwragedd eraill (ac ambell ŵr hefyd!) am lanhau'r llysiau a pharatoi'r cawl, ac i bob un a gyfrannodd wobrau tuag at y raffl. Diolch yn arbennig i siop Pethau Olyv a Llawn Cariad, Sanclêr, am eu cefnogaeth. Enillwyd y gwobrau raffl gan Sarah Roberts, Sioned Jones, Eifiona Lewis, Rhian White, Llinos Thomas, Mary Edwards a Philip Morgan.

**Bingo'r Bryn**

Cynhelir noson Bingo yn y Bryn nos Iau, Ebrill 28ain. Y galwr fydd Mr. Glyn Rees, Sanclêr. Bydd y drysau ar agor am 7 yr hwyr a bydd yr elw yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r Neuadd. Bydd dished o de neu goffi a raffl yn ystod yr egwyl. Croeso i bawb! Dewch yn llu i gefnogi eich neuadd leol!

**Diolch**

Dymuna Elfed ac Eifiona ddiolch o galon i bawb am y llu negeseuon, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur.

# HENLLANFALLTEG

Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth Mari Jenkins, neu Miss Jenkins fel oedd hi'n cael ei hadnabod i lawer. Dechreuodd Mari ddysgu yn Ysgol Henllan Amgoed ym mis Medi 1991 a bu'n dysgu yno nes i'r ysgol gau yn 2004.

Fe aeth wedyn i ddysgu yn ysgol Bro Brynach. Bydd colled fawr ar ei hôl a rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf i'w chwaer Sian a'i theulu.

# LOGIN

**Calfaria**
Oedfaon
Diolch o galon i'r Parchedig Peter Thomas a Mr Hefin Wyn am eu gwasanaeth dros yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Mai
1af: Lyndon Lloyd - Cymun 10.30 o'r gloch
15fed: Tom Defis - 2 o'r gloch
29ain: Aled Gwyn - Oedfa Goffa Parchedig Vincent Evans - 10.30 o'r gloch
Mehefin
12fed: Judith Morris - Cymun 10.30 o'r gloch
26ain: Annalyn Davies - 2 o'r gloch

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Gwyneth Jones, Pengraig Uchaf ar farwolaeth dau ewyrth sef Wil Jones a Dai Scourfield yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefyd gyda Hywel Llewellyn, Margaret Morgan, Mari Brame, Beryl Thomas a Peter Llewellyn ar farwolaeth eu cyfnither sef Morfydd Bowen, St Florence (Bryntrogin gynt)

**Gwellhad**
Dymunwn adferiad buan i Arwel Jones, Clos Bach a Gwyneth Jones, Pengraig Uchaf, y ddau wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau hefyd i Iris Morris, Talar Wen a Russell Thomas, Bro'r Dderwen - y ddau yn anhwylus ar hyn o bryd.

**Priodas Hapus**
Llongyfarchiadau mawr i Owen Jenner a Laura Clayton ar eu priodas yn ddiweddar. Priododd y ddau yn Tŷ'n Dŵr, Llangollen a bu'r teulu a ffrindiau yn dathlu'r achlysur hapus yn eu cwmni. Pob dymuniad da ac hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

# CWM MILES

**Capel:** Diolch i'r Parchedig Euros Jones Evans am ei wasanaeth mewn Cymun ar Sul, 3ydd Ebrill. Cafwyd pregeth rymus ar arwyddocâd y Gweddnewidiad a beth gallwn ddysgu o'r profiad pen y mynydd. Pwysleisiodd bwysigrwydd gweddïo a rhoi lle i Air Duw yn ein bywydau.
Trefnwyd danfon rhodd at Apêl Wcrain ar ddiwedd yr oedfa.

**Trefn yr oedfaon**
Mai 22ain. Cymun 2.00 - Elonwy Phillips
Mehefin 19eg. Cymun 2.00 - Parch Euros Jones Evans

Dymuna'r aelodau, a'r ardal, benblwydd hapus i Mary Llewelyn, Pendre gynt, ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed ar 24ain Ebrill. Mae pawb yn cofio atoch.

Gwellad buan i Bryan John, Penyberth, Llandysilio sydd wedi cael llawdriniaeth Hefyd mae sawl aelod arall wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Dymunwn adferiad buan iddynt hwy.

Cofion hefyd at Nan Evans sydd yng Nghartref Garreglwyd.

## Cylch Meithrin Ffynnonwen




Pob lwc i Jasmine ac Evelyn sy'n dechrau yn ysgol Beca a Kieran sy'n dechrau yn ysgol Bro Brynach ar ôl Pasg. Pob dymuniad da iddynt.

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

FMB
Adeiladwyr
DORIAN PHILLIPS
Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd
Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau
Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygwyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU
Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwms
A Llawer Mwy!
LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuildingsupplies.co.uk

# HENDYGWYN AR DAF

Mae pethau wedi dechrau mynd nôl i'r arfer yn awr yn mhob man ar ôl y pandemig, ac felly mae hi yn y Tabernacl, Hendy-gwyn. Ers y Pasg rydym wedi mynd nôl i'r patrwm oedd gyda ni, gydag oedfaon am 9.30 a 11.00 am yn ail.

Cafwyd oedfa dan ofal yr aelodau yn ystod mis Mawrth. Paratowyd yr oedfa gan bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd ac edrychwyd ar wlad Zimbabwe gan ddysgu llawer mwy am y wlad liwgar honno yn ne cyfandir Affrica.



*Denley Owen yn derbyn ei wobr (Rhagoriaeth Mewn Diwylliant) wrth Guto Llywelyn*

Yn ddiweddar enillodd Denley Owen wobr arbennig 'Rhagoriaeth Mewn Diwylliant' am ei lyfr ar hanes y Tabernacl, Hendy-gwyn, yn ogystal â'i gyhoeddiadau eraill ar hyd y blynyddoedd. Cyflwynwyd y wobr mewn noson arbennig yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli a drefnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Yn anffodus roedd Denley ac anwyd trwm ar y pryd a methodd fod yn bresennol. Ond cafodd Guto'r fraint o'i gynrychioli a chyflwyno'r wobr iddo'r wythnos ganlynol. Mae copïau o'r llyfr ar werth am £15 mewn siopau lleol neu wrth Elizabeth White ar 01994 240344.




Hefyd yn derbyn gwobr y noson honno yn Llanelli oedd un o aelodau'r Tabernacl sef Ken Rees. Derbyniodd Ken y wobr 'Cyfraniad Eithriadol i Ddiwylliant' am ei holl waith diflino i Ganolfan Hywel Dda ar hyd y blynyddoedd. Llongyfarchiadau mawr i'r

Erbyn hyn mae Guto wedi ail ddechrau bod yn festri'r Tabernacl bob dydd Mercher rhwng 12.00 a 14.00 os oes rhywun eisiau galw mewn am sgwrs. Croeso i unrhyw aelod, neu unrhyw un arall yn y byd, i alw mewn am sgwrs. "Mae problem wedi ei rhannu yn broblem wedi ei haneru". Nid oes angen apwyntiad.

O edrych ymlaen, bydd ein Cyrddau Blynyddol ar ddydd Sul, Mai'r 22ain am 10.30 a 14.30 o dan arweiniad cyn Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynwyr, y Parchedig Dewi Myrddin Hughes, Clydach. Bydd oedfa'r prynhawn dan ofal y plant a'r ieuenctid. Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon hyn ac i bob oedfa. Cysylltwch am fwy o fanylion.

## *Priodas Ruddem*



Llongyfarchiadau i George ac Ann Glanville, Brynhaul, Llwynpinner Fach, Hendygwyn, ar achlysur dathlu Priodas Ruddem. Priodwyd y ddau yng nghapel Tabernacl, Hendygwyn ar y 24ain o Ebrill 1982. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch wrth y teulu i gyd.

## Cydnabod 42 mlynedd o wasanaeth

*Cyng. Ron Jenkins MBE (ymdd.)*




Dadorchuddiodd teulu Ron ynghyd â Chynghorwyr Tref Hendy-gwyn ar Daf blac coffa i ddathlu'r 42 mlynedd y bu Ron yn aelod o'r Cyngor. Yn ystod y cyfnod hwn gwasanaethodd Ron fel Maer dim llai na phum gwaith.

Yn y llun gwelir Ron gyda'i deulu a'r plac - sydd wedi ei leoli ar wal gorsaf reilffordd Hendy-gwyn ar Daf.

## Cylch Meithrin Hywel Dda

**Cystadleuaeth Creu Cerdyn Pasg**



Braf oedd croesawu Mrs Margarette Hughes i'r Cylch Ti a Fi yn y Neuadd Goffa yn ddiweddar er mwyn beirniadu'r gystadleuaeth creu cerdyn Pasg. Da iawn i chi gyd a llongyfarchiadau i'r enillwyr - 1af Izzy; 2ail Kelly; 3ydd Ellie.

**Cystadleuaeth Hetiau Pasg**



Diolch yn fawr i Mrs Roberts, pennaeth Ysgol Llys Hywel am fod yn feirniad. Meddai "Braf oedd cael beirniadu'r hetiau Pasg. Roedd yn swydd anodd". Dewiswyd yr enillydd oherwydd roedd wedi ei bersonoleiddio i'r Mudiad Meithrin gan gynnwys Doti ar y het. Da iawn i chi gyd." 1af Lottie; 2ail Carwyn;

### HOELION WYTH - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill ar nos Iau y 7fed, fel arfer yn Lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn.
Cyn dechrau, cafwyd munud o dawelwch i gofio eto am drueiniaid Wcrain.
Y siaradwr gwadd oedd Vernon Beynon, Bwlch-y-ddwy-Sir, Llandysilio (gynt o Fferm y Cross).
Teitl ei gyflwyniad yn bennaf oedd 'Cymeriadau Bro ei Febyd' – y bobl 'roedd yn eu hadnabod pan yn blentyn ac yn ifancach adref ar y fferm. Un o'r rhai mwyaf adnabyddus wrth gwrs oedd Waldo Williams, a oedd yn gymydog a ffrind agos i deulu fferm Y Cross.
Cafwyd hanes lu o gymeriadau ganddo a saff dweud bod mwy o chwerthin iach wedi bod yn y cyfarfod hwn nag mewn un cyfarfod arall. Cyn gorffen cafwyd ei hanes pan fu'n joci, a'r rhasus fu'n cymryd rhan ynddynt, hwn eto yn ddiddorol iawn. Noson arbennig a diolchwyd i Vernon gan Wyn Evans.

## LLANGLYDWEN

Fe fydd Pwyllgor Cymuned Llanglydwen yn cynnal cyfarfod ym mis Ebrill i gadarnhau trefniadau ar gyfer ychydig o weithgareddau dros yr Haf. Mae trigolion y pentref yn rhannu'r gwaith o dorri porfa'r Cae Chwarae ac yn dod at eu gilydd i beintio'r offer a chadw'r cae yn daclus ar ddechrau pob Gwanwyn.

Diolch i bawb sydd yn ymuno yn yr helpu ac am dorri'r porfa. Cynhelir ein barbeciw blynyddol i drogolion y pentre ym mis Mehefin.

## PWLL TRAP

Penblwydd hapus i Paul Leeds, Cheriton a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Alan a Sandra Compton, Rosemead, ar ddathlu eu Priodas Ddeimwnt ar Fawrth 31ain.

Dymuna Don a Rita James, Hafan Hedd, ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Ddeimwnt.

**Bethlehem Newydd**

Cafwyd oedfa dan ofal Mrs. Maria Evans ar Fawrth 27ain. Defnyddiwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd fel sail i'r oedfa ar Ebrill 3ydd. Cafwyd oedfa hyfryd a gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog. Diolch i Rhodri a Marian am drefnu, i Dai Rees fu'n cyfeilio wrth yr organ ac i bawb a gymerodd ran.

Trefn oedfaon mis Mai yw:
1af: 10.00y.b. - Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd dan ofal y gweinidog
8fed: 10.00y.b. - Cyfarfod Blynyddol yn y Trinity
1.30y.p. - Oedfa undebol i Gibeon, Ffynnonbedr a Chana yng Ngibeon. Bydd plant y dair Ysgol Sul yn cymryd rhan.
15fed: 10.30y.b.- Oedfa Gymun yng Ngibeon dan ofal y gweinidog
22ain: 10.00y.b.- Oedfa yng nghwmni Coda Ni ym Methlehem Newydd.

**Tŷ Croeso**: Derbyniwyd cymaint o Wyau Pasg roedd digon i Loches Menywod Caerfyrddin, Banc Bwyd Hendygwyn a ieuenctid di-gartref San Cler. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael unwaith eto.



Gosodwyd arddangosfa o nwyddau Masnach Deg yn y capel yn cynnwys dillad o Pethau Olyv a bwydydd Masnach Deg.



Diolch, hefyd, i bawb a gyfranodd hen sbectol. Bydd Vision Aid yn eu hailgylchu i bobl anghenus dramor.

Bydd Coda Ni yn cynnal gwasanaeth ym mis Mai. Maent yn casglu nwyddau ar gyfer eu gwaith dyngarol ac fe fydd Tŷ Croeso yn eu derbyn er mwyn eu trosglwyddo yn yr oedfa. Maent yn cymryd dillad oedolion a phlant; esgidiau a bagiau; dillad gwely (dim duvets a gobennydd); llenni a theganau meddal. Mae angen i'r dillad fod yn lan ac yn gyfan. Bydd y gorau'n cael eu gwerthu ar e-bay ac yn lleol ac yn gwerthu eraill wrth y pwys i "Bags for Schools" a chwmniau tebyg. Mae unrhyw ddeunydd rhacs yn cael eu rhoi i elusen Ymchwil Cancr yng Nghaerfyrddin ar gyfer eu shredio am arian i'r elusen.

# SAN CLER

Dymuniadau gorau i Bethan Davies, Derlwyn Tâf ar ei hymddeoliad yn ddiweddar.

## Daphne Walters

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Daphne Walters, gynt o Gwynfa, Heol yr Orsaf, yn 89 oed. Nid oedd Daphne wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ystod y blynyddoedd diwethaf a threuliodd flynyddoedd olaf ei bywyd yng Nghartref Gwernllwyn, Cross Hands. Roedd yn enedigol o San Cler Isaf ac wedi gadael ysgol hyfforddodd i fod yn nyrs a bydwraig yn Ysbyty Treforys. Treuliodd gyfnod fel bydwraig yn ysbyty San Helier yn Llundain cyn dychwelyd a gweithio fel Sister Tutor yn Nhreforys. Roedd yn falch iawn o'r ddwy fedal aur roedd wedi eu hennill fel myfyrwraig ddisglair yn ystod ei hyfforddiant.

Wedi priodi Hugh ac ymddeol bu'n byw yn Heol yr Orsaf a bu'n weithgar iawn yn y gymuned. Hi oedd ysgrifennydd cyhoeddiadau Eglwys y Trinity a bu'n gydlynydd San Cler i Gwrdd Gweddi Chwiorydd y Byd am flynyddoedd. Bu'n aelod selog a gweithgar o Ferched y Wawr, yn llywydd ar Gangen San Cler ac yn ffyddlon iawn i weithgareddau Rhanbarthol a Chenedlaethol y Mudiad gan fwynhau'r Penwythnosau Preswyl. Bu llawer o sôn ganddi am y teithiau tramor, yn enwedig y daith i Rwsia. Yn nhŷ Daphne byddai'r Clwb Darllen yn cwrdd fel arfer ac roedd yn hael ei chroeso. Rhoddodd lawer o'i hamser i wirfoddoli gyda'r "Citizens Advice Bureau" a chafodd lawer o fwynhad o'r dosbarth Gwerthfawrogi Cerddoriaeth ac wrth fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol. Roedd wrth ei bodd yn ymweld â'r opera. Roedd Daphne yn wybodus ac yn gwmni difyr. Diolch am ei chyfraniad a choffa da amdani.



Dyma lun o Ioan Davies, gor-wyr Mrs Joan Picton-Davies, Trenewydd, San Clêr. Ganwyd Ioan ar y 16eg o Dachwedd 2021, yn fab i Harri a Beth, Cwmbetws, ac yn ŵyr i John a Bethan Davies, Cwmbetws, Eglwyswrw.

### Diolch

Hoffai Brenda a Ronnie Lewis, Pentalar, Crymych, ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Penblwydd Priodas Ddiemwnt. Trosglwyddwyd £1,070 i'r Gymdeithas Alzheimers.










# RHYDWILYM

Yn ystod y mis a aeth heibio cafwyd gwasanaethau gan Parch. P M Thomas a Mr Hefin Wyn. Diolch i'r ddau am gyfarfodydd bendithiol iawn.

Cyfarfodydd mis Mai

1af: 2.00 - Lyndon Lloyd
15fed: 10.30 (Cymun) - Parch Tom Defis

Bydd llwch y diweddar Evelyn a Islwyn John yn cael ei claddu ym medd y teulu ar yr 20fed o Ebrill.
Bydd yr achlysur yn hollol breifat yn ôl dymuniad Janet a'r teulu. Coffa da am y ddau.

Bydd Gwylnos, sydd wedi ei threfnu gan Hefin Wyn, i gofio am Griff a Patti Thomas, Ffynnon Samson yn cael ei chynnal yn y Capel ar Sul, 24ain Ebrill am 6 o'r gloch.

Dymunwn yn dda i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd, ac i'r rhai sydd mewn cartrefi gofal.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cafwyd gwasanaeth hyfryd gan Mrs Annalyn Davies ar Sul Cymundeb mis Ebrill ac oedfa brynhawn, Ebrill 10fed, Sul y Blodau, gan y Parchg. Huw George. Diolch iddynt.

Suliau mis Mai

1af: Cymundeb - Parchg. Alwyn Daniels - 10.30
8ed: Oedfa yng ngofal y Parchg. Huw George - 2.00

Cydymdeimlwn â Roy Llewellyn ar farwolaeth cyfnither, sef Morfydd Bowen (Bryntrogin gynt) o St. Florence.
….hefyd â Nansi Evans ar farwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith - Anne Thomas o Crundale ger Hwlffordd.
....hefyd â Brian John ar farwolaeth perthynas yn Cross Hands.

**Claddedigaeth.**

Ar ddydd Mawrth, 22ain o Fawrth cynhaliwyd claddedigaeth Elfed Rees ym mynwent Ramoth. Rhoddwyd i orffwys ym medd ei rieni, y diweddar Myrddin a Vana Rees, Llangynin. Yr oedd y gwasanaeth ar lan y bedd yng ngofal y Parch. Huw George. Cydymdeimlwn gyda'i deulu a'i chwaer Gillian.

**Penblwydd arbennig**

Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Mary Wood, Gwynfryn, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Andrew Walton (Welsh Whisperer), gynt o Gwmfelin Mynach ac Angharad Morris ar eu priodas yn Llanberis ar Fawrth 19eg. Dyma nhw yn dathlu gyda Begw, eu merch fach blwydd oed.



**Penblwydd Hapus**

i Begw Walton a oedd yn 1 oed ar yr 22ain o Fawrth.

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen, Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud**
Cynhaliwyd oedfa Gymun ar Sul, Ebrill 3ydd gan y Parchg. Guto Llywelyn a diolch iddo am ei wasanaeth ffyddlon.

**Ysbyty**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Trefor Griffiths, Llanbariets sydd yn Ysbyty Glangwili ac ar ei benblwydd yn 89 oed ar y 6ed o Fai

*(Dymunwn yn dda i Doreen Adams sydd wedi derbyn triniaeth (cyn llaw-driniaeth) yn Ysbyty Llwynhelyg.*

# LLANBOIDY

**Sefydliad y Merched**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth ar y 10fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Bu'r aelodau yn trafod y busnes arferol.
Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd y Farchnad a phenderfynwyd cwrdd o hyn ymlaen am 7 o'r gloch.

**Chwaeroliaeth.** Daeth yr aelodau ynghyd yng Nghaffi Beca ar Fawrth 26ain. Croesawodd y llywydd, Wenfys Rees, pawb i fwynhau y cawl a'r danteithion a chafwyd prynhawn dymunol yn cymdeithasu. Diolch i Robert James a'i staff.

**Gwellhad** buan i Julie Thomas sydd wedi dod adref ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Llwynhelyg.
....hefyd i Jayne Young sydd wedi dod nôl o Lundain i Ysbyty Glangwili ac i Adrian Jones, Cwmfelin Boeth sydd yn yr ysbyty ers peth amser.

**Penblwydd** hapus a dymuniadau da i Delyth Dent a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Ebrill 10fed.
....hefyd i Cynthia Phillips a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Fawrth 28ain.

**Llongyfarchiadau** i Merle Evans, Derlwyn ar ddod yn hen-famgu. Ganwyd merch i Danielle a Liam o Reading.

**Trinity.** Cynhaliwyd oedfa Gymundeb ar Fawrth 13eg gyda'r gweinidog yn gwasanaethu.
Bu'r aelodau yn llongyfarch y Parchg Guto Llywelyn a'i briod, Catrin ar eu Priodas Arian a dymuno'n dda iddynt.
Bu'r aelodau yn casglu arian tuag at drigolion Wcráin a diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Ar Sul, Mawrth 27ain cafwyd oedfa gyda'r gweinidog yn gwasanaethu. Bu'n llongyfarch W.J. a Heulwen Davies, Stag, ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt a dymuno'n dda iddynt. Roedd yna fardd (neu beirdd) dienw wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y diwrnod!

O Lanboidy drwy yr eira
Fe aeth Wil i Fethabara,
Hwyr oedd Haulwen 'nôl traddodiad -
Calonnau'r ddau yn llawn o gariad.

Blynyddoedd hapus gyda'r teulu
Yn ymgasglu yn Llanboidy,
Testun balchder ydyw hynny -
Dathlu'r Diemwnt wnânt eleni.



William John a Haulwen yn torri'r gacen

**Diolch**
Dymuna William John a Haulwen Davies, Stag, Llanboidy ddiolch i'r teulu, perthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu penblwydd priodas

**Priodas Ddiemwnt**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Hywel a Fanw Thomas, Brynderwen a fu'n dathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ystod mis Mawrth.

**Cymdeimlwn** a theulu'r Hafod ar ôl iddynt golli mam a mamgu, sef Margaret Kedward.

DAVID HARRIES & Co
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

## Cyfrannu offer meddygol i Wcráin

Cafwyd ymateb aruthrol ar gyfer yr offer goroesi a meddygol i Wcráin.

Daeth Oleksandr Lopuha mewn lori i gasglu'r mynydd o focsys ac oherwydd haelioni Cymuned Llanboidy roedd dim lle i'r cyfan a bu'n rhaid mynd i Mansel Davies i gael fan fawr arall.

Teithiodd y cerbydau i Ganolfan Gymunedol Wcráin yn Llundain, ac yna ymlaen i'r ffîn yng ngwlad Pwyl. Trosglwyddwyd y llwyth wedyn i dryciau llai i fynd i mewn i'r Wcráin. Prynodd Oleksandr ei lori yn Llanelli a threfnodd i yrrwr fynd ag ef yn syth i'r Wcráin yn y bore gyda llawer o'r nwyddau gasglwyd yn Llanboidy ynddi.

Dymuna Dorian Phillips, Cynghorwr Sir, ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac wedi helpu i wneud eu rhan tuag at y gwrthdaro ofnadwy hwn.



Y Cyng. Dorian Phillips gyda rhai o'r bocsys a anfonwyd i'r Wcráin.

# TRELECH

Penblwydd hapus iawn a dymuniadau gorau i Steffan, Aelwyd y Coed ar ddathlu penblwydd arbennig ar y cyntaf o fis Ebrill.

**Sefydliad y Merched**

Cawsom ein cyfarfod mis Mawrth yng nghartref yr ysgrifennydd ar Fawrth 8fed. Cawsom gyfarfod cynnar gan mae ein siaradwr gwadd oedd Greg, gwneuthurwr gwisgoedd gyda'r Tŷ Opera Brenhinol yn Llundain. Cafwyd y cyfarfod drwy Zoom yn ei amser cinio a buom yn ffodus iawn i'w gael i siarad â ni am yr eildro. Mae ei waith yn hollol wych a mae llawer o amser a cywreinrwydd yn mynd i bob darn.

Wedyn, cawsom ginio a roedd Lyn wedi gwneud cawl a bara i ni gan ei bod yn 70 oed y diwrnod cynt, felly buom yn dathlu gyda hi. Cafwyd cyfarfod busnes i ddilyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 12fed yn y Giât yn Sanclêr, gyda Denise Askew, Gôf Arian, am 1.30 yp.

# BANCYFELIN

## Dathliadau 150 mlynedd yr Ysgol

Mae Ysgol Bancyfelin yn 150 oed eleni. Bydd diwrnod o ddathlu ar Ddydd Sadwrn, Ebrill 30ain. Bydd diwrnod agored yn yr ysgol o 10-4, gyda rhan ffurfiol y dydd yn cael ei gynnal tu allan am 11.30. Yna cynhelir noson gymdeithasol yn y Neuadd am 7.30 yng nghwmni Phoebe Morgan. Mae tocynnau ar werth am £15 yr un oddi wrth Rhiannydd Evans ar 07773 250483 neu Bethan James 07966 554220.

**Capeli Cana a Bancyfelin**



Lansiwyd Apêl yn yr eglwysi ym mis Chwefror i gasglu nwyddau hylendid personol i Ganolfan Galw i Mewn Byddin yr Iachawdwriaeth, Caerfyrddin. Bu'r ymateb yn rhyfeddol a chasglwyd 13 llond blwch! Oherwydd yr ymateb mawr, penderfynwyd rhannu'r nwyddau rhwng Canolfan Galw i Mewn Byddin yr Iachawdwrieth, Caerfyrddin, y Lloches i Fenywod yng Nghaerfyrddin ac Apel am nwyddau hylnedid Personol i Wcrain. Diolch o galon i chi gyd.

Mewn ymateb pellach i'r sefyllfa druenus yn yr Wcrain, gwnaed casgliad rhydd yn eglwysi'r Ofalaeth am ddau Sul yn ystod mis Mawrth ac o ganlyniad, cyflwynwyd siec o £2,000 i Gymorth Cristnogol i gefnogi gwaith eu partneriaid yn Nwyrain Ewrop. Diolch am bob cefnogaeth.

## Gibeon

Cynhaliwyd oedfa Gymun yng Ngibeon ar Fawrth 21ain a braf oedd cael cyfarfod yn y capel unwaith eto. Diolch i'r gweinidog am ei neges rymus ac am weini'r Cymun. Hilary oedd yn cyfeilio.
Mae trefn Suliau mis Mai fel a ganlyn:
Mai 1af 10.00y.b. - Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd dan ofal y gweinidog
Mai 8fed 1.30y.p. - Oedfa undebol i Gibeon,

Ffynnonbedr a Chana yng Ngibeon. Bydd plant y dair Ysgol Sul yn cymryd rhan.
Mai 15fed - 10.30y.b. - Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog
Mai 22ain 10.00y.b. - Oedfa yng nghwmni Coda Ni ym Methlehem Newydd.

# EFAILWEN

**Swyddi Newydd**

Llongyfarchiadau mawr i Rhodri Lewis, Bro Beca ar gael ei benodi'n Swyddog Gweithredol i Brif Weithredwr S4C yng Nghanolfan yr Egin yng Nghaerfyrddin. Tra bod Rhodri'n gadael mudiad y Ffermwyr Ifanc fel ei Prif Swyddog yn Sir Gâr, mae ei chwaer, Nia, sy'n byw yng Nghaernarfon, yn ymuno gyda'r mudiad yn genedlaethol fel Swyddoig Datblygu'r Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr iddi hithau hefyd a pob dymuniad da i'r ddau yn eu swyddi newydd.

**Penblwydd**

Dymunwn benblwydd hapus iawn i Les Owen, Goodwin's Row oedd yn 80 oed ar Ebrill 8fed.

**Ysgol Beca**

Trist oedd clywed bydd Mr Mathew Lemon, pennaeth yr ysgol, yn gadael ar ddiwedd tymor yr Haf. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd yn Ysgol Gynradd Penygroes.

**Gwobr Bridio Holstein**

Llongyfarchiadau mawr i Simon a Sian Davies a'r bechgyn, Fferm Brynhyfryd ar ennill gwobr bridwyr rhagorol ( Master Breeders Awards ) Cymdeithas Holstein UK.

**Codi arian**

Llongyfarchiadau mawr a diolch o galon i deulu Rhosfach am fwrw ati i drefnu a cynnal taith tractorau a noson o adloniant, er budd elusennau lleol, ar ddydd Sadwrn, Ebrill 9fed, er cof am fab, ŵyr a nai annwyl iawn sef Ianto Jenkins. Cafwyd cefnogaeth anhygoel i'r daith tractorau (fel gwelir yn y llun isod) a'r noson adloniant a bydd adroddiad llawn yn y rhifyn nesaf.



*Llun: Rhys Davies*

Dyma lun dynnwyd gyda drone yn dangos yr holl dractorau fu'n cymryd rhan ar y daith. Yn ogystal â'r tractorau, bu nifer fawr o lorie, ceir a beicie modur hefyd - cyfanswm o 427!

## Hoelion Wyth - Cangen Beca

**Cinio Blynyddol**

Cynhaliwyd cinio blynyddol Hoelion Wyth Beca yng Nghaffi Beca, Efailwen ar nos Wener, Mawrth 25ain. Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Eifion Evans cyn i Ken Thomas offrymu gras. Bu pawb yn mwynhau pryd blasus o fwyd ac yn mwynhau cymdeithasu cyn gwrando ar araith ein siaradwr gwadd sef Brian Jones, Castell Howell.

Esboniodd Brian sut wnaeth arall gyfeirio o odro gwartheg yn ystod cyfnod y cwotau nôl yn yr wythdegau, a dechrau magu cywion / ieir ar ei fferm.

Datblygodd y busnes o fan honno a bu rhaid symud o glos y fferm i uned ddiwydiannol yng Nghaerfyrddin o fewn ychydig flynyddoedd. Erbyn heddiw, mae gan Bwydydd Castell Howell uned enfawr / "hub" yn Cross Hands yn ogystal â nifer o ganolfannau dosbarthu arall, led led y wlad. Mae'n stori hollol ryfeddol a daeth yn amlwg o wrando ar Brian yn siarad, taw asgwrn cefn a llwyddiant pennaf y cwmni yw staff hollol ymroddgar. Pwysleisiodd taw staff cydwybodol yw ased pennaf pob cwmni a bod yntau'n ymddiried yn llwyr ynddynt. Mae'n amlwg bod y staff yn ymddiried ac yn parchu Brian hefyd gan bod canran uchel iawn ohonynt wedi gweitho i'r cwmni am flynyddoedd lawer.

Diolchodd Roy Llewellyn yn hollol ddiffuant i Brian am araith fyrlymus yn llawn hiwmor a talodd deyrnged haeddianol iddo, nid yn unig am y modd mae yntau wedi datblygu busnes llwyddiannus dros ben, ond hefyd am yr holl elusennau a cymdeithasau maent wedi cefnogi'n ariannol ar hyd y blynyddoedd.

Diolchodd Eifion i Robert a'i staff am baratoi a gweini gwledd ar ein cyfer, roedd yn hyfryd cael cynnal cinio blynyddol wedi saib o dros dwy flynedd. Diolch hefyd i Eurfyl am drefnu'r noson.



Eifion Evans, Eurfyl Lewis a Ken Thomas yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Brian Jones, Castell Howell.

# Aelwyd Hafodwenog

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Ranbarthol yr Urdd yn ddiweddar.

Dawns Werin Bl.7-9 - 1af
Dawns Werin Bl.10 ac o dan 19 oed - 1af
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl.9 ac Iau - Dion Jones - 1af
Parti Deulais Bl.9 ac iau - 1af
Parti Llefaru Bl.9 ac Iau - 1af

Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl.9 ac Iau - Abel Rees - 2il
Ymgom Bl. 7-9 – Lois, Gwawr, Abel a Gwenan -3ydd

A phob hwyl i'r isod hefyd a fydd yn cynrychioli'r Aelwyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych :-

Dawns Werin Bl.7 ac o dan 25 oed
Grŵp Clocsio Bl.7 ac o dan 25 oed
Dawns Unigol i Ferched Bl.10 ac o dan 25 oed - Erin Jones
Dawns Unigol i Fechgyn Bl.10 ac o dan 25 oed - Steffan Richards
Dawns Unigol i Ferched Bl.10 ac o dan 25 oed - Sara Brown
Côr SATB 14-25 oed
Côr Merched SSSA 14-25 oed
Côr Meibion TTB 14-25 oed

# C.Ff.I. Penybont

Cafodd yr aelodau ddiwrnod penigamp yn Niwrnod Gwaith Maes y Sir ym Mart Caerfyrddin, ac roedd hi'n braf dychwelyd wedi bwlch y pandemig.

Llongyfarchiadau i Gwion Jones–Howells, Gilbert Roberts a Carwyn Thomas am ennill y gystadleuaeth Ffenso Iau.



Gilbert, Carwyn a Gwion. Enillwyr cystadleuaeth codi ffens, Iau.

A llongyfarchiadau i Elan Thomas ar ddod yn 3ydd yng nghystadleuaeth y Stocmon Iau, ac i Gilbert Roberts am ddod yn 3ydd yng nghystadleuaeth y Saethu Colomennod Clai Iau

Roedd y clwb hefyd yn stiwardio'r diwrnod felly diolch i bob un am fodloni i roi o'u hamser, ac mae'r clwb hefyd yn hynod ddiolchgar i'r holl hyfforddwyr.

Cafodd aelodau C.Ff.I. Penybont ddiwrnod penigamp yn cynrychioli C.Ff.I. Sir Gâr yng Ngŵyl Siarad Cyhoeddus C.Ff.I. Cymru yn Llanelwedd fis diwethaf.

Mewn cyfanswm o 8 o gystadlaethau, cafodd C.Ff.I. Sir Gâr 1af neu 2il ym mhob adran gan gipio'r brif darian yn yr adran Saesneg a chydradd gyntaf gyda C.Ff.I. Ceredigion yn yr adran Gymraeg.

Roedd 6 o siaradwyr gorau'r dydd yn dod o C.Ff.I. Sir Gâr a 3 o'r siaradwyr hynny yn aelodau yn C.Ff.I. Penybont. Llongyfarchiadau mawr i :
Celyn Richards, yr unigolyn gorau yn Yr Adran Ddarllen, Cymraeg.
Hannah Richards, yr unigolyn gorau yn Yr Adran Ganol, Saesneg.
Teleri James, yr unigolyn gorau yn yr Adran Hŷn, Saesneg.



Teleri James yn derbyn y tlws wrth y Llywydd y Sir



Unigolion gorau yn yr Adran Ddarllen a Chanol - y chwiorydd Celyn a Hannah Richards

A llongyfarchiadau hefyd i'r holl aelodau o C.Ff.I. Penybont ar eu llwyddiant :

1af - Celyn Richards a'r Tîm Darllen Saesneg
1af - Daniel O'Callagan a Lleu Pryce a'r Tîm Canol Cymraeg
2ail - Celyn Richards a'r Tîm Darllen Cymraeg
2ail - Hannah Richards a Daniel O'Callaghan a'r Tîm Canol Saesneg
2ail - Mared Evans a'r Tîm Hŷn Cymraeg
2ail - Teleri James a Fiona Phillips a'r Tîm Hŷn Saesneg.

# NEWYDDION BLAENCONIN

### CODODD IESU !

Braf oedd gweld y gynulleidfa yn dod ynghyd i ddathlu'r Pasg ac i gyhoeddi buddugoliaeth Iesu dros angau a'r bedd. Mae gan y Pasg neges unigryw i'r byd ac mae'n ddyletswydd arnom i fanteisio ar bob cyfle i gyhoeddi – 'CODODD IESU !'

### Y GYMANFA BWNC

Mae'r hen draddodiad eto'n fyw a'r ffyddloniaid yn edrych ymlaen yn eiddgar i glywed beth fydd testun a thema'r Gymanfa Bwnc am eleni. Mae'r gwaith o baratoi'r Llawlyfr eisoes wedi dechrau ac yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd croeso i bawb sy'n dymuno trafod gwirioneddau'r Gair i ddod i'r Dosbarthiadau. Cynhelir y Gymanfa fore Sul, 5ed Mehefin am 10.30 … ond mae gwahoddiad i bawb i ddod ynghyd yn ystod yr wythnosau nesaf i drafod … a dadlau !

### TAITH GERDDED ER BUDD WCRÁIN

Daeth nifer o Fedyddwyr y fro ynghyd ar bnawn Sadwrn, 9fed Ebrill i godi arian i gynorthwyo ein brodyr a chwiorydd yn Wcráin. Trefnwyd y daith gerdded gan y Parch. Geraint Morse ac ar brynhawn heulog aeth y cerddwyr o Gapel Harmoni, Pencaer i Gapel Hermon, Abergwaun. Cafwyd tywydd braf a chwmni difyr. Ar ddiwedd y daith, cynhaliwyd oedfa yn festri Hermon yng nghwmni'r Parchedigion Geraint Morse, Tom Defis, Aled Jenkins a Huw George.

Ar ddiwedd yr oedfa cyhoeddwyd fod yr arian a gasglwyd wedi cyrraedd yn agos i £4,000. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

### WYN 'TEGRYN'



Trist yw gorfod cofnodi ymadawiad sydyn y brawd WYN EVANS – 'Wyn Tegryn'.
Bu Wyn yn weithgar iawn yn ein plith ac yn aelod ffyddlon o'r Eglwys am flynyddoedd lawer. Bu ei gyfraniadau i genhadaeth yr Eglwys yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn amhrisiadwy a gwelwyd ef 'Ar y We' yn ddiweddar yn sôn am Gadair 'Wncwl Tomi' – Cadair Eisteddfod Clunderwen - a'i awydd i weld y Gadair yn dychwelyd i'r fro.

Cofiwn am Heather gan ddiolch iddi am ei gofal amdano.

Cynhaliwyd oedfa Coffa a dathlu am ei fywyd yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin a braf oedd gweld nifer o'r Eglwys a'r ardal yn bresennol.

### B B C

Bu rhaid gohirio'r

**BWRDD BRECWAST CYMUNEDOL (BBC)**

ym mis Ebrill (a diolch am eich hyblygrwydd) ond braf yw cael cyhoeddi ein bod yn eich gwahodd i ddod ynghyd fore Llun, 9fed o Fai am 10 o'r gloch i drafod syniadau, rhannu gofidiau a mwynhau'r arlwy.
Mae'r bwyd AM DDIM a lle i 30 i ddod ynghyd ac felly, y 'cyntaf i'r felin' ac ati. I sicrhau lle, cysylltwch â Huw .....huwmg@hotmail.com / 07967807908

### Gwlithyn Bro

Mae 'Gwlithyn Bro' mis EBRILL 2022 ar gael ac yn cynnwys newyddion am yr hyn sydd i ddod yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

### NEWYDDION o'r FFYNNON

**Nos Iau Cablyd**

Cafwyd Oedfa syml, fendithiol yn y Ffynnon nos Iau Cablyd a chyfle i baratoi ar gyfer y Groglith ... a'r Pasg. Diolch i'r ffyddloniaid am ddod ynghyd.

**Oedfa Mis Mai**

Cynhelir Oedfa Gymuned ar y Sul cyntaf o Fai am 2 o'r goch.

# LLANDYSILIO

***Priodas Ddiemwnt***



Llongyfarchiadau i Evan ac Edith Davies, Brynglas, Llandysilio (gynt o Glasfryn, Llanboidy) ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Ebrill 21ain.

Cariad wrth Ken a Nia, Aled a Diane, Catrin, Rhys, Bethany, Elis, Llŷr a Lynfa.

**Priodas Arian**

Llongyfarchiadau i Tina a Richard Fussell a fu'n dathlu eu Priodas Arian ar Fawrth 19eg.

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Cynhelir Bore Coffi a stondinau grwpiau lleol i ddathlu Jiwbili y Frenhines yn Neuadd Llandysilio ar fore Iau, 2il o Fehefin, am 10.00yb tan canol dydd. Croeso i bawb.

Dewch i ymuno a ni yng nghyfarfod Pwyllgor Neuadd Llandysilio, mae croeso mawr i chi. Rydym yn cwrdd ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30yh

### *Priodas Hapus*



Llongyfarchiadau mawr i Nia Roblin a Robert Farnden ar ddathlu eu priodas ar 26ain o Fawrth. Mae Nia yn ferch i Delyth a Michael Roblin, Glynty. Bu rhaid gohirio'r briodas ddwy flynedd nôl oherwydd Covid. Priodas Hapus iddynt.

## Cylch Meithrin Llandysilio

**Diwedd Cyfnod**

Ar ddiwedd tymor daeth diwedd gyrfa i Delyth a Haulwen wrth i'r ddwy ffarwelio â Chylch Meithrin Llandysilio. Diolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd. Hoffem ddymuno yn dda i Liz a staff Ffynnonwen sydd yn cymeryd gofal o redeg y Cylch. Mae'n braf gwybod bydd y Cylch mewn dwylo saff - diolch iddynt. Diolch hefyd i Einir a Sarah am y cyd weithio ac i'r rhieni am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Mae Cylch Meithrin Llandyslio i blant 2-4oed, yn neuadd Llandysilio, Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener. 9.00yb tan 12.00 canol dydd. £10 y sesiwn.

### Cylch Ti a Fi Llandysilio

I blant 0 - 4 gyda rhiant/gwarchodwr. Pob bore Mercher 10yb tan canol dydd yn Neuadd Llandysilio. £3 y sesiwn.

Am fwy o fanylion am y Cylch Meithrin a Ti a Fi cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882639867 neu Liz Lewis

**Ysgol Brynconin**

Dymuna Delyth Roblin ddiolch hefyd i rieni a staff Ysgol Brynconin am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad.

### Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Ar brynhawn Gwener, 3ydd o Fehefin bydd y merched yn cynnal te prynhawn gymunedol i ddathlu jiwbili Frenhines o 3.30 tan 5.30 yn Neuadd Llandysilio. Croeso i bawb.

### HWYL FAWR DELYTH A HAULWEN !

A hithau'n ddiwedd tymor arall a gwyliau'r Pasg wedi cyrraedd, gyda thristwch yr ydym yn ffarwelio â dwy aelod o staff sydd wedi bod mor weithgar i Fudiad Meithrin Sir Benfro ers dros ugain mlynedd.

Mae Delyth Roblin, sylfaenydd ac arweinydd Cylch Meithrin Llandysilio ers dros ugain mlynedd, yn ymddeol o'i swydd hithau ac hefyd Haulwen Pridmore, sydd wedi bod yn gynorthwywraig yn y Cylch ers blynyddoedd maith. Mae Haulwen hefyd yn drysorydd y Sir ers blynyddoedd maith ac felly fe fydd colled mawr ar ôl y ddwy.

Maent wastad wedi cefnogi pob agwedd o waith y Mudiad ac wedi gweithio yn ddyfal i gadw'r Cylch i fynd ac i sicrhau bod plant yr ardal yn cael y dechrau gorau posib. Mae croeso wedi bod bob amser yn Llandysilio. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr ferched.

Diolch am eich brwdfrydedd, eich ymroddiad a'ch gwaith caled. Diolch hefyd am eich cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch. Pob dymuniad da i chi eich dwy ac ymddeoliad hapus iawn i chi.



Haulwen a Delyth ar achlysur eu hymddeoliad

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn: 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

IJ GRIFFITHS Cyf.
Hen-Dy-Gwyn
CONTRACTWYR ADEILADU
*Gwasanaeth Cyflawn*
Wernddu
Stryd y Brenin Edward
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AA
Ffôn: 01994 240534
Symudol: 07966 411443

Y CARDI BACH BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRO BRYNACH

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch, a gynhaliwyd yn Neuadd Llanboidy ar y 12fed o Fawrth. Oherwydd cyfyngiadau COVID, yn anffodus nid oedd cynulleidfa ond cafwyd diwrnod da o gystadlu, da iawn i'r disgyblion i gyd. Llongyfarchiadau i Toby am ddod yn ail yn y llefaru i flynyddoedd 3 a 4.

**Diwrnod Syndrom Down**



Ar yr 21ain o Fawrth roedd yr ysgol yn llawn lliw gyda'r disgyblion yn gwisgo sanau od ar gyfer diwrnod codi ymwybyddiaeth Syndrom Down.

**Rygbi Tag**



Disgyblion blynyddoedd 5 a 6

Ar yr 22ain o Fawrth, teithiodd disgyblion o flynyddoedd 5 a 6 i San Clêr i gymryd rhan mewn twrnament rygbi tag a drefnwyd gan y Sgarlets. Cafwyd diwrnod llwyddianus gyda'r tîm yn ennill 2 gêm ac un gêm gyfartal. Da iawn chi.

Roedd yn wythnos codi ymwybyddiaeth o Awtistiaeth yn ystod wythnos Mawrth 28ain - Ebrill 1af. Dyma'r 60fed blwyddyn ers y dechrau felly cerddodd y disgyblion o gwmpas iard yr ysgol 60 gwaith.

Mwynheodd disgyblion dosbarth Lliwe a Sien helfa wyau yn y parc beicio ac yna creu basgedi Pasg er mwyn eu cario adref. Yna cafwyd picnic blasus yn yr ardal allanol.

**Ennill cystadleuaeth Cyw**



Llongyfarchiadau i Alys Tebbutt ar ennill cystadlaeaeth Cyw ac ennill pecyn o adnoddau am ganu Mi Welais Jac y Do.

Mae disgyblion blwyddyn 2 wedi bod yn mwynhau sesiynau Actif gyda Laura gan ddatblygu sgiliau pêl, teithio a chydbwyso.

# YSGOL BRYNCONIN

**Cwis Llyfrau**

Da iawn i Catrin, Keiran, Rhys a Tomos a gynrychiolodd Ysgol Brynconin yng nghystadleuaeth Cwis Llyfrau i Flwyddyn 5 a 6 ac hefyd i Cynan, Deri, Luca a Tegan a gynrychiolodd yr Ysgol yng nghystadleuaeth Blwyddyn 3 a 4 ar ddydd Mercher, 30ain o Fawrth. Fe wnaeth tîm Blwyddyn 5 a 6 drafod llyfr Trio Antur yr Eisteddfod a thrafododd tîm Blwyddyn 3 a 4 y llyfr Cwningen a'r Arth. Rydym yn falch iawn i ddweud bod tîm blwyddyn 3 a 4 wedi cyrraedd y 3 uchaf ac felly yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.

**Gŵyl Rygbi yng Nghlwb Rygbi Aberteifi**
Llongyfarchiadau i ddosbarth Rhuddem (blynyddoedd 5 a 6) am gymryd rhan yng ngŵyl rygbi yn Aberteifi dydd Iau, 31ain o Fawrth. Fe wnaeth pawb fwynhau eu hunain a diolch i Mr Andrew Cotter am hyfforddi'r plant.

**Ymweliad PC Llywelyn**
Braf oedd cael croesawu PC Llywelyn i'r ysgol dydd Gwener, 1af o Ebrill. Cynhaliodd weithdai cadw'n ddiogel gyda'r tri dosbarth a chafwyd cyfle i weld un o gŵn yr heddlu. Fe ddysgodd y plant llawer o bethau am rôl cŵn heddlu.

**Ffarwelio â Staff**



Rydym am ddymuno'n dda i Mrs Delyth Roblin a Miss Shirley. Bydd Mrs Delyth Roblin a Miss Shirley yn ymddeol ar ddiwedd tymor y Gwanwyn ac rydym yn gwerthfawrogi popeth maent wedi gwneud i'r ysgol. Bydd hiraeth mawr ar eu holau. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol a diolch iddynt am bopeth.

**Cystadleuaeth Celf a Chrefft Ysgol Brynconin**
Da iawn i bawb oedd wedi cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Ysgol Brynconin eleni. Llongyfarchiadau enfawr i Gracie-May Wills am ennill tlws Mr Christopher Thomas (unigolyn sydd wedi ennill y mwyaf o bwyntiau yn Eisteddfod Celf a Chrefft Ysgol Brynconin).

**Codi arian i Wcrain**
Yn dilyn penderfyniad aelodau Cyngor Ysgol i godi arian i Wcrain ar ddiwrnod trwynau coch, fe gorymdeithiodd plant Ysgol Brynconin o gwmpas y pentref yn eu dillad glas a melyn. Codwyd swm sylweddol o £700 i bobl Wcrain. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

**Tripiau Dosbarth**
Fel rhan o waith y tymor – 'Amser Maith yn ôl,' fe aeth dosbarth Emrallt i Gastell Henllys ar ddydd Mawrth, 15fed o Fawrth ac fe deithiodd dosbarth Rhuddem i Gastell Ceriw ar ddydd Iau, 17eg o Fawrth. Cafwyd amser da yn yn dysgu am hanes y ddau leoliad.

**Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro**




Llongyfarchiadau enfawr i Luca, Evelyn a phlant y côr am wneud mor yn dda yn Eisteddfod Sir yr Urdd, dydd Sadwrn, 19eg o Fawrth. Da iawn i'r côr am ddod yn drydydd. Gwych bob un!

**Dosbarth Diemwnt yn codi arian**
Mae Cyngor Dosbarth Diemwnt wedi penderfynu codi arian i brynu mwy o adnoddau digidol i'r dosbarth. Ar Ddydd Iau, 7fed o Ebrill fe gynhaliodd plant y dosbarth taith feicio noddedig o gwmpas yr Ysgol. Codwyd swm da o arian ar gyfer adnoddau digidol newydd.

**Gwasanaeth Diwedd Tymor**
Cynhalion ni ein gwasanaeth diwedd tymor ar brynhawn Mercher, 6ed o Ebrill. Roedd yn gyfle i ni ddathlu gwaith da yr Ysgol am y tymor ac yn gyfle i ni rannu llwyddiannau'r plant.
Llongyfarchiadau enfawr i Luca Devonish am ennill Tlws C.Ff.I. Clunderwen Tymor y Gwanwyn 2022. Llwyddodd i ennill y tlws am ddangos datblygiad da yn ei sgiliau Cymraeg.

EUROPA
FFASIYNAU GWALLT
Heol y Pentre, San Clêr
*Mae yna groeso i'r gwŷr hefyd*
*Wendy, Dawn a Kirsty*
Ffôn: 01994 230462

J. B. OWEN
LLOGI PEIRIANNAU
*Golygfa*
*Llandissilio*
Ffôn: 01437 563693
07966 549623

Gareth Glanville
SAER COED
Llwynpinner Fach
Hendygwyn ar Daf
SA34 0RA
Ffôn: 01994 240173
Symudol: 07779 112192
*Gwaith safonol - cysylltwch am bris*

# YSGOL BANCYFELIN

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau i Meilyr James, gafodd yr ail wobr am Lefaru Blwyddyn 2 ac Iau yn Eisteddfod Gylch Cwm Taf. Da iawn Meilyr.


**Codi arian**





Bu Ffederasiwn Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan yn codi arian tuag at ddioddefwyr y rhyfel yn yr Wcrain ar ddydd Gwener, Mawrth 11eg, drwy wisgo dillad melyn a glas. Treuliwyd y diwrnod yn dysgu am Wcrain ac yn llunio gwaith celf cysylltiedig. Casglwyd £726.87. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

**Ymwelwyr Dosbarth y Llan**



Bu yna ymwelwyr arbennig yn Ysgol Bancyfelin ar ddydd Mawrth, Ebrill 5ed sef dau oen bach a chywion bach. Roedd y plant wrth eu bodd yn dysgu amdanynt ac yn eu bwydo.

**Dathliadau 150 mlynedd yr Ysgol**

Mae Ysgol Bancyfelin yn 150 oed eleni. Bydd diwrnod o ddathlu ar ddydd Sadwrn, Ebrill 30ain. Bydd diwrnod agored yn yr ysgol o 10-4, gyda rhan ffurfiol y dydd yn cael ei gynnal tu allan am 11.30. Yna cynhelir noson gymdeithasol yn y Neuadd am 7.30 yng nghwmni Phoebe Morgan. Mae tocynnau ar werth am £15 yr un oddi wrth Rhiannydd Evans ar 07773 250483 neu Bethan James 07966 554220.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Eisteddfod yr Urdd**

Hyfryd oedd gweld criw o'n disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch Cwm Taf yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy. Bu nifer yn canu unawdau ac yn llefaru, tipyn o her ar ôl dwy flynedd heb gystadlu. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau:- Llefaru Blwyddyn 5+6: Mia Mcdowall 3ydd, Llefaru Unigol Blwyddyn 3+4: Caio Davies 1af, Unawd Blwyddyn 2 ac iau: Caitlin Williams 1af a Lottie Howells 2il, Unawd Blwyddyn 3+4: Hollie Mackay 1af a Daisy Mackay 2il, Unawd Blwyddyn 5+6: Llyr Davies 2il. Da iawn i bawb a gymerodd rhan!
Aeth yr enillwyr ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Rhanbarth yn Theatr yr Haliwell yng Nghaerfyrddin.









Dyma'r canlyniadau: Parti Unsain Blwyddyn 6 ac Iau: 3ydd. Unawd Blwyddyn 2 ac Iau: Caitlin Williams 3ydd, Unawd Blwyddyn 3 a 4 Holly Mackay 2il, Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: Caio Davies 2il. Llongyfarchiadau hefyd i Naomi Miller ac Oliver Thomas a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Offerynnol Rhanbarth Gorllewin Myrddin. Enillodd Oliver yr ail wobr am Unawd Llinynnol Blwyddyn 6 ac Iau ac enillodd Naomi yr ail wobr am Unawd pres a thrydydd yn Unawd piano Blwyddyn 6 ac Iau.



Cystadleuwyr Eisteddfod yr Urdd

**Ymweliadau**

Aeth dosbarth Blwyddyn 4 Branwen ar daith i Lyfrgell Caerfyrddin i gymeryd rhan mewn cyflwyniad am fywyd a gwaith T. Llew Jones. Diolch i'r Llyfrgell am y cyfle.

**Diwrnod Trwynau Coch**



Penderfynodd y Cyngor ysgol taw sanau gwirion oedd y thema ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch ar y 18fed o Fawrth. Trefnodd y Cyngor gyflwyniad i ddosbarthiadau Pwyll a Myrddin am bwysigrwydd gwaith yr elusen 'Comic Relief'.

**Chwaraeon**

Trefnwyd Gŵyl Rygbi Tag ar gyfer ysgolion y cylch gan gynrychiolydd o'r Sgarlets sef Nico Setaro. Aeth pedwar tim o'r ysgol i gystadlu a braf oedd gweld y plant yn mwynhau chwaraeon gydag ysgolion eraill am y tro cyntaf ers amser maith.

**Cyngor Eco**

Bu'r Cyngor ECO wrthi yn casglu sbwriel ym Mharc San Clêr gyda chwmni Mcdonalds fel rhan o'u gwaith ymchwil am ymdrechion y cwmni i warchod yr amgylchedd. Bu Rheolwr Busnes y cwmni yn esbonio sut maent yn ceisio gwella eu ôl troed carbon. Gwobrwywyd y plant am eu gwaith caled gyda ffrwythau a diodydd. Diolch yn fawr!

**Cogurdd**



Bu Grace Thomas, Llŷr Davies, Non Thomas ac Ollie Sturnham yn brysur yn coginio eto ar gyfer Rownd 2 yr ysgol. 'Stir-Fry' gyda chig a llysiau oedd ar y fwydlen y tro yma. Llongyfarchiadau i Non a fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn rownd y Rhanbarth.

**Maes yr Hufenfa**

Aeth criw o'r disgyblion am dro i Maes yr Hufenfa i weld eu gwaith dylunio yn cael ei arddangos ar y safle. Bu'r plant yn fuddugol mewn cystadleuaeth gyda chwmni adeiladu Jones. Y dasg oedd dylunio cartef eco gyfeillgar.

**Ffarwelio**

Ar ddiwedd y tymor fe ffarweliom a dwy athrawes CPA sef Mrs Ffion James a Mrs Catrin Williams. Hefyd daeth cyfnod ein cogydd Mrs Sian Jones i ben yn yr ysgol. Dymunwn pob dymuniad da ac hapusrwydd i'r dair ar gyfer y dyfodol a diolch yn fawr iddynt am eu cyfraniad i'r ysgol dros y blynyddoedd.

# YSGOL HAFODWENOG

**Plannu coed**

Yn dilyn cais llwyddiannus gyda'r Cyngor Coed, bu'r disgyblion yn plannu coed o amgylch yr ysgol. Diolch yn fawr i Laurence Brooks, rhiant, am ei help.






## Apêl Wcráin

Roedd aelodau'r Cyngor Ysgol wedi trefnu diwrnod dillad eu hunain (dillad melyn a glas) i bawb. Codwyd tâl ac aeth yr arian i Apêl Wcráin drwy'r Groes Goch. Bu'r disgyblion yn gwneud amryw o weithgareddau a gwasanaeth yn ystod y dydd. Llongyfarchiadau i bawb am gasglu £245 tuag at yr achos.







## Eisteddfod

Bu llawer o'r disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch Cwm Taf yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r canlynol :

Llefaru Unigol Bl 2 ac iau: 1af - Efa Davies
3ydd - Owain Jones
Unawd Bl 2 ac iau: 3ydd - Efa Davies
Unawd Bl 3 a 4: 3ydd – Heledd Williams

Yna ymlaen i Eisteddfod Cynradd Rhanbarth Gorllewin Myrddin :

Llefaru Unigol Bl 2 ac iau: 3ydd - Efa Davies
Côr Bl 6 ac iau: 1af – Ysgol Hafodwenog

Llongyfarchiadau i bawb. Braf oedd bod yn ôl yn cystadlu yn yr Eisteddfod unwaith eto. Pob lwc i'r Côr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych.

## Prosiect y Celfyddydau

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, fe wnaeth Ysgol Hafodwenog gais llwyddiannus gydag 'Ysgolion Celfyddydau Creadigol' i dderbyn grant i weithio gydag ymarferwyr celfyddydau. Felly, yn ystod y tymor hwn, mae Dosbarth Rhos Fach a blwyddyn 3 o Dosbarth Cae Glas wedi bod yn ffodus iawn i weithio gyda Tudur Phillips a Cassandra Lishman ar Brosiect y Celfyddydau. Byddwn yn cynnal prynhawn agored am 2 o'r gloch ar 29ain o Ebrill i ddathlu llwyddiant y prosiect ac arddangos y gwaith a perfformio.

## Cystadleuaeth Het Basg

Cynhaliwyd cystadleuaeth het Pasg i bob disgybl. Gofynnwyd i'r het fod allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Mrs Cassandra Lishman bu'n beirniadu a llongyfarchiadau i :
Noah a Seamus - Dosbarth Rhos Fach a
Teleri ac Eres - Dosbarth Cae Glas am ddod i'r brig.

## Ffarwelio â Mrs Laverne Jones

Daeth yr amser i ddweud ffarwel i Miss Laverne ar ôl 12 mlynedd fel cogyddes yr ysgol. Diolch iddi am ei gwaith caled a di-flino dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd tysteb a rhoddion iddi mewn gwasanaeth ar Ebrill 1af. Diolch i Angela Samson am wneud y gacen i'r tê ffarwel. Bydd y disgyblion a staff yn gweld eisiau Miss Laverne.

## Cogyddes newydd

Hoffem estyn croeso i Miss Andrea ein cogyddes newydd. Rydym yn siwr bydd Miss Andrea yn mwynhau gyda ni yn Ysgol Hafodwenog.

---

**Cyfraniad**

Brenda a Ronnie Lewis, Crymych £20

*Diolch yn fawr*

LYNDON GEORGE

ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPÂR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

George's o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw Iâr - Diodydd

Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30
Croeso i chi archebu ar y ffôn
01994 231482
Heol yr Orsaf,
San Clêr



Jones Login

Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill** | | |
| Llun 25 | **Trysorau Swydd Caer - 'Halen, Sebon a Sidan'** | 5 |
| Maw 26 | *Lord of the Dance 25, Theatre Newydd, Caerdydd* | 1 |
| Sad 30 | *Strictly Come Dancing - Y Dawnswyr Proffesiynol* | 1 |
| **Mai** | | |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Six The Musical, CMC* | 1 |
| Llun 9 | **Iwerddon - Sligo a'r 'Wild Atlantic Way'** | 6 |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - School of Rock, CMC* | 1 |
| Llun 23 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston** | 5 |
| Sad 28 | *Sioe Gerdd - Singin' in the Rain, CMC* | 1 |
| **Mehefin** | | |
| Gwe 10 | **Caerfaddon a Briste** | 4 |
| Mer 15 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 18 | Gwibdaith Sir Benfro | 1 |
| Sad 25 | **Yr Alban - Dumfries a Galloway** | 7 |
| **Gorffennaf** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC* | 1 |
| Llun 11 | **'From a Lofty Height to the Isle of Wight'** | 5 |
| Maw 19 a Mer 20 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 21 | **Llandudno** | 5 |
| Iau 28 | **Castell Highclere (Abaty Downton)** | 2 |
| **Awst** | | |
| Llun 1, Mer 3 a Gwe 5 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Maw 30 | Gwibdaith Dirgel | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Medi** | | |
| Llun 5 | **Ardal y Llynnoedd** | 5 |
| Llun 12 | **Eastbourne** | 5 |
| Sad 17 | Gwyl Fwyd y Fenni | 1 |
| Maw 20 | **Cerddoriaeth Bond - Neuadd Brenhinol Albert** | 2 |
| Gwe 23 | **Feast Your Pork Pies on Melton Mowbray** | 5 |
| **Hydref** | | |
| Llun 3 | **Iwerddon - Kerry a Dingle** | 6 |
| Gwe 14 | **Stratford-upon-Avon** | 4 |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd - South Pacific, CMC* | 1 |
| Sad 29 | *Syr Bryn Terfel - Songs & Arias, NDS* | 1 |
| **Tachwedd** | | |
| Gwe 4 | **Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton** | 4 |
| Sad 5 | *Sioe Gerdd - Sister Act, CMC* | 1 |
| Gwe 11 | **Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire** | 4 |
| Sad 19 | **Nadolig ar y Coblau (Coronation Street)** | 2 |
| **Sad 19** | *Sioe Gerdd - My Fair Lady, CMC* | 1 |
| Gwe 25 | **Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod** | 3 |
| Sad 26 | **Gwyl Olau Longleat** | 2 |
| **Rhagfyr** | | |
| Sad 3 | **Llwybr Goleuadau Palas Blenheim** | 2 |
| Sad 10 | **Nadolig Gerddi Kew** | 2 |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd - Les Miserables, CMC* | 1 |

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

# Miri Mai ...

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae Mam-gu Iet-wen a'i ffrindiau wrth eu bodd yn dawnsio o gylch y Fedwen Haf gan ddal y rhubanau hardd.

**Fedrwch chi ddyfalu lliwiau'r rhubanau?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/5/22**

**Heledd Mair Williams o Fryn Iwan yw enillydd Cystadleuaeth Mis Mawrth.**

Ateb: (1) 11 wy (2) 12 wy (3) 14 wy (4) 11 wy (5) 11 wy (6) 14 wy oedd gan yr ieir bach pert.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2022

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi yn rhifyn Mehefin.**

# Penblwydd Hapus





Pen-blwydd hapus iawn i Efan sy'n 8 oed ar Ebrill 17eg. Seren y cae pêl-droed a'n teulu ni. Cariad mawr wrth Mam, Dad, Griff, Mamgu Llinos, Geraint, Hen Dadcu Roy, Mamgu a Dadcu Pennant a'r teulu oll. XX





Penblwydd hapus i Sioned Alys Mai Dyer a fydd yn 1 oed ar y 4ydd o Fai.
Llawer o gariad oddi wrth Mami, Dadi, Gwenllian, mamgu a tadcu Rhydcaernarfon a Llandeilo a'r teulu cyfan.

Menter Gorllewin Sir Gâr

**Paned a Sgwrs:**
Yn ddiweddar mae'r Fenter wedi dod yn rhan o sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, pob ddydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl. I gofrestru, cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

**Coffi a Chlonc:**
Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

**Sesiwn stori:**
Rydym yn cynnal ein sesiynau stori yng Nghaerfyrddin bob yn ail ddydd Llun yng Nghanolfan Chwarae Sgiliau ar y 9fed a 23ain o Fai am 10:30yb. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda alma@mgsg.cymru i gofrestru.

**Clybiau Drama:**
Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant ddysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gydag alma@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

**Sblash a Sbri:**
Am y tro cyntaf erioed, mae'r Fenter yn rhedeg sesiynau Sblash a Sbri, sef sesiwn nofio a chanu ar gyfer rhieni/gwarchodwyr a phlant hyd at flwydd oed. Yn rhedeg am 5 wythnos, yn cychwyn ar y 25ain o Ebrill am 1.30pm. £35 am 5 wythnos yng Nghanolfan Nofio Caerfyrddin. Nifer cyfyngedig, i gofrestru cysylltwch gydag alma@mgsg.cymru

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG • Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru
neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris ar y ffôn: 01239 712934

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES
Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor



Heol yr Orsaf
Hendygwyn
Ffôn:
01994 240228



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



| DYDDIAD | TEITHIAU 2022 | PRIS | DIWRNODAU |
|---|---|---|---|
| Llun 2 - 6 Mai | Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION | £465 | 5 Diwrnod |
| Gwener 6 - 8 Mai | CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS | £195 | 3 Ddiwrnod |
| Gwener 13 - 16 Mai | PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGNTON | £300 | 4 Diwrnod |
| Sadwrn 14 - 20 Mai | CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY | £660 | 7 Diwrnod |
| Mawrth 17 - 19 Mai | MEN & MOTORS 1V | £265 | 3 Diwrnod |
| Sul 22 - 25 Mai | PUDDING CLUB (Noson blasu pwdinau) & COTSWOLDS | £345 | 4 Diwrnod |
| Iau 26 - 28 Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £299 | 3 Diwrnod |
| Llun 30 Mai - 2 Mehef | LLANDUDNO - Croeso Twymgalon Gwesty'r Tynedale | £370 | 4 Diwrnod |
| Sul 5 - 10 Mehefin | IWERDDON - KERRY | £600 | 6 Diwrnod |
| Llun 6 - 9 Mehefin | DARGANFOD GERDDI DORSET | £360 | 4 Diwrnod |
| Llun 13 - 17 Mehefin | Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE | £435 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 21-28 Mehefin | YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN | £900 | 8 Diwrnod |
| Sul 26 Mehef - 2 Gorff | Ymweliad a RHEILFFORDD "BLUEBELL" EASTBOURNE | £535 | 7 Diwrnod |
| Iau 7 - 9 Gorffennaf | GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED | £320 | 3 Diwrnod |
| Iau 14 - 16 Gorff | The Royal International Air Tattoo | £290 | 3 Diwrnod |
| Gwener 15 - 20 Gorff | YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT) | £415 | 5 Diwrnod |
| Sul 24 -25 Gorff | LEGOLAND (WINDSOR) | i/g | 2 Diwrnod |
| Llun 25 - 29 Gorff | HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES | £450 | 5 Diwrnod |
| Sul 31 Gorff - 4 Awst | Charming Cheshire & The Wirral Peninsula | £435 | 5 Ddiwrnod |
| Sul 7 - 12 Awst | LOCHS a DYFRFFYRDD yr ALBAN | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 12 - 15 Awst | ILFRACOMBE | £340 | 4 Diwrnod |
| Sad 20-27 Awst | St ANTON, AWSTRIA | £815 | 8 Diwrnod |
| Mer 24 - 27 Awst | SIOE AGER a Hên Beiriannau DORSET, Bournemouth | £340 | 4 Diwrnod |
| Sul 4 - 8 Medi | NORMANDY Cyfle i ymweld a mynwentydd y rhai a gollwyd | £595 | 5 Diwrnod |
| Llun 5 - 9 Medi | CYMRU a'r GORORAU | £450 | 5 Diwrnod |
| Llun 12 - 16 Medi | Norfolk Broads, Steam, Cruise and Sandringham | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 16 - 19 Medi | PENWYTHNOS HIR o YMLACIO yn EFROG | £310 | 4 Diwrnod |
| Gwe 23 - 26 Medi | PENWYTHNOS THEMA YN TORQUAY | £280 | 4 Diwrnod |
| Sad 24 - 29 Medi | DARGANFOD TRYSORAU GOGLEDD IWERDDON | £705 | 6 Diwrnod |
| Llun 26 - 30 Medi | PENWYTHNOS YMWELD â GOLEUANNAU BLACKPOOL | £310 | 5 Diwrnod |
| Sul 2 - 6 Hydref | Dambusters & Lincolnshire Heritage | £490 | 5 Diwrnod |
| Sad 8 - 12 Hydref | Magnificent Isle of Man - GOGONEDDAU YNYS MANWY | £485 | 5 Diwrnod |
| Gwe 14 - 17 Hydref | WESTON SUPER MARE | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwe 21 - 24 Hydref | PENWYTHNOS DDIRGEL MIS HYDREF | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwe 21 - 24 Hydref | LOOE & THE CORNISH COAST | £300 | 4 Diwrnod |
| Gwe 28 - 31 Hydref | PENWYTHNOS YN BIDEFORD | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwe 4 - 7 Tachwedd | TAITH UCHELWYDD A GWIN yn DARTMOOR | £300 | 4 Diwrnod |
| Llun 14 - 18 Tachwedd | TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwe 18 - 20 Tachwedd | MARCHNAD NADOLIG YN CHATSWORTH HOUSE | £225 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25 - 29 Tachwedd | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £430 | 5 Diwrnod |
| Gwe 25 - 27 Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG - MAENCEINION A CAER | £215 | 3 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**
**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**
**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# Clwb Pêl-droed Llanboidy

Does ddim llawer iawn o bêl-droed ar ôl o dymor 2021 – 2022 bellach, er hyn, mae digon gyda Clwb Pel-droed Llanboidy i edrych ymlaen ato.

**Tîm cyntaf**

Ers dechrau mis Mawrth, mae tîm cyntaf y clwb wedi chwarae 5 gêm, dwy gêm gynghrair a tair gêm mewn tri cwpan wahanol.

Cafwyd gêm gyfartal ar gae Canolfan yr Urdd, Llangrannog yn erbyn Crannog 1-1 gydag unig gôl Llanboidy yn dod gan Ifan Mebs Phillips. Yn anffodus, colli 2-1 oedd ein hanes yn erbyn Llandudoch sydd ar frig y gynghrair ar hyn o bryd. Cafwyd gôl gynnar gan Rhys Jenkins, ond yn anffodus dwy gic o'r smotyn yn rhoi'r fuddugoliaeth i Landudoch.

Colli bu'n hanes eto yn erbyn Llandudoch o 1-0 yng nghwpan y gynghrair - cic smotyn arall. Er hyn, braf oedd medru cael buddugoliaeth yng nghwpan Bae Ceredigion gan guro Llambed o 2-0 gyda goliau yn dod gan Ewan Jones ac Ifan Mebs Phillips.

Ar ôl profi dwy golled agos iawn yn erbyn tîm cryf Llandudoch yn flaenorol, profwyd buddugoliaeth swmpus yn ei herbyn yng ngêm cyn derfynol Cwpan Dai Dynamo o 4 gôl i 1 ar gae pêl-droed Castell Newydd Emlyn. Ifan Mebs Phillips yn sgorio 3 gôl (2 gic o'r smotyn) a'r gôl arall yn dod i Gethin Scourfield. Buddugoliaeth gampus, ac rydym fel clwb yn edrych ymlaen yn fawr at y rownd derfynol gynhelir ar ddydd Llun, Mai 2ail yn erbyn Crymych neu Corris.

Ar hyn o bryd rydym yn 3ydd yn y gynghrair gyda thair gêm ar ôl yn erbyn Felin-fach, Crymych, Llandudoch.

**Ail Dîm**

Chwarae tair, colli tair yw hanes ail dîm Crymych dros y mis diwethaf. Er hyn, mae'r dair colled wedi bod yn erbyn timau da iawn.

Colli 5 gôl i 1 oedd hanes y tîm yn erbyn ail dîm Ffostrasol yn y gynghrair gyda'r unig gôl yn dod gan Daniel Blain. Cafwyd gêm agos iawn yn erbyn ail dîm Ffostrasol yng nghwpan y "South Cards" cyn mynd ymlaen i golli 2 gôl i 1 gyda'r unig gôl yn dod gan y capten Chris Didley Bowen.

Chwaraewyd gêm gwpan arall sef Cwpan Percy Eldridge yn erbyn ein cymdogion sef ail dîm Crymych. Gêm agos arall, ond colli 2 gôl i 1 unwaith eto gyda Ashton Arnold yn sgorio i Llanboidy.

Mae'r ail dîm hefyd yn y trydydd safle, gyda gêm i ddod yn erbyn ail dîm Maesglas yng nghanol mis Ebrill.
Diolch yn fawr iawn i holl noddwyr a chefnogwyr y clwb am y flwyddyn - rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth am pryd mae'n gemau - ewch ar wefan "Ceredigion League". Bydd croeso cynnes yn aros amdanoch lawr ar gae Cae Dandre bob amser.



# Clwb Rygbi Hendygwyn

Dyma ganlyniadau'r gemau gynhaliwyd dros yr wythnosau diwethaf.

**Dynion**

**Mawrth 12fed**: Gorseinon 34 - Hendy Gwyn 28

Colli eto ym munud ola'r gêm. Fel tim rydym yn ei chael hi'n anodd i ennill cyfres o gemau ar ôl eu gilydd. Sgoriodd Harry Fuller dau gais wrth chwarae ei gêm gyntaf i'r tîm a sgoriodd Dan Bennet a Callum Evans gais yr un. Llwyddodd Nico Setaro gyda pedwar trosiad.

**Ebrill 2il:** Hendy Gwyn 7 - Llangennech 43

Collwyd yn drwm, sgoriwyd unig gais gan y capten Scott Newton a trosiad gan Nico Setaro. Gwnaeth Llangennech droi i fyny gyda 4 chwaraewr o Quins Caerfyrddin.

**Menywod**

**Mawrth 13eg**: Gwernyfed 0 - Hendy Gwyn 14


Bant a ni ar y bws i Gwernyfed gerllaw Talgarth yn Sir Brycheiniog. Roedd y tywydd wedi bod yn wlyb a roedd y cae yn drwm. Sgoriwyd y pwyntiau i gyd yn ystod

*parhad ar dudalen 39*

***Emrys ac Ann Murrow***
**Motel Nantyffin**
**Llandissilio**
Bwyty • Neuadd Wledda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau
Croeso cwrtais bob amser
Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i gleifion GIG!

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Cartref Oddi Cartref
Y GARREG LWYD, HEOL SALEM, SANCLER

FFONIWCH
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

*parhad o dudalen 40*

Mae'r clwb hefyd am longyfarch Jeff Davies ar dderbyn gwobr "Y Garfan Answyddogol " wrth Cymdeithas Adeiladu'r Principality – gwobr sy'n cydnabod unigolion sydd wedi cyfrannu'n aruthrol o fewn y clwb rygbi. Gweler yr adroddiad llawn a llun Jeff mewn erthygl ar wahan, yn y rhifyn hwn.

Mae wastod croeso cynnes i ddarpar chwaraewyr ymuno gyda ni. Am fwy o wybodaeth am y clwb ymwelwch â'n gwefan – www.stclearsrfc.co.uk; tudalen facebook - stclearsrfc a trydar - @stclearsrfc_xv



Tîm Ieuenctid Clwb Rygbi San Cler 1959/60

*Dymuna papur bro y Cardi Bach bob llwyddiant i Glwb Rygbi San Cler.* *Eurfyl Lewis*

# Pencampwr y Clybiau Rygbi




Llongyfarchiadau enfawr i Jeff Davies o Glwb Rygbi San Cler ar ennill y teitl o "Bencampwr y Clwb" gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality. Dewiswyd Jeff allan o 800 o enwebiadau i fod yn ran o "Garfan Answyddogol" y Principality. Ar ben hynny dewiswyd Jeff fel capten y garfan a gafodd gyfle i wylio gêm Cymru yn erbyn yr Eidal ar Fawrth 19eg, gan dderbyn croeso arbennig yn y bocs lletygarwch, yn cynnwys cwrdd â'r chwaraewr Ken Owens.

Mae Jeff yn llwyr haeddiannol o'r wobr hon, yn un o aelodau cyntaf Clwb Rygbi San Cler a ffurfiwyd yn 1984. Cychwynnodd fel chwaraewr, yna trysorydd, yna cadeirydd. Ers ymddeol mae'n rhedeg y bar, glanhau'r clwb a marcio'r cae cyn gêm ar y Sadwrn. Am ei ymroddiad diflino i'r Clwb Rygbi yr enwebwyd ef am le yn y garfan. O lanhau'r tu allan, cynorthwyo i redeg y Clwb, peintio ac addurno'r Clwb, glanhau'r pibau a threfnu staff, nid yw un dyletswydd yn ormod iddo. Ystyrir ef yn wir arwr yn y gymuned ac mae pawb yn hynod falch iddo dderbyn yr anrhydedd hon.

*parhad o dudalen 38*

yr hanner cyntaf - cais yr un i Ceulyn Davies a Kelsey Powell a llwyddodd Macey Bowen gyda'r ddau drosiad. Gwnaeth Gwernyfed frwydro'n galed yn ystod yr ail hanner ond gwnaeth Hendy Gwyn amddiffyn yn gadarn i'w cadw allan. Canlyniad gwych, cawsom amser llawn hwyl a sbri ar y ffordd adref.

**Ebrill 2il:** Hendy Gwyn 50 - Blaendulais 12
Roeddem ni ddim yn edrych ymlaen i'r gêm yma gan fod Blaendulais yn sgrymio'n galed. Cafodd ein rheng flaen Ifanc wres eu traed ganddynt. Wedi dweud hynny, sgoriodd Hendy Gwyn 8 cais gyda phawb yn gweithio gyda'u gilydd - tri cais i Marged Williams (prif sgoriwr ceisiau tymor yma), dau gais i Danielle Lawrence oedd yn chwarae ei gem cyntaf yn y canol, un cais i Ffion Scriven, un o ferched dan 18 sydd yn digon hen i chwarae gyda'r tim hyn ac un cais hefyd i Sally Windsor a'r capten Ceulyn Davies. Llwyddodd Macey Bowen gyda 5 trosiad.

**Hwb Rygbi Merched**
Mae Hwb rygbi merched y Tigers wedi dechrau. Mae dros 70 o ferched o 6-18 oed yn ymarfer ar nos Fercher ar Barc Dr Owen. Cysylltwch gyda Suzanne Davies ar 07966 694323 os hoffech fwy o wybodaeth.



Dyma Ffion Scriven, Cadi Williams a Holly Rowsell – y dair wedi chwarae i dîm dan 18 Hendy Gwyn, bellach yn chwarae i dîm dan 18 y Sgarlets a tîm menywod Hendy Gwyn. Pob dymuniad da i'r dair yn y dyfodol.

# CHWARAEON - Clwb Rygbi San Cler

Ffurfiwyd Clwb Rygbi San Cler nôl yn 1985, yn dilyn sgwrs yn nhafarn yr "Highwayman". Roedd nifer o ddynion ifanc naill a'i yn chwarae yn achlysurol neu ddim o gwbwl ac yn awyddus i geisio sefydlu tîm rygbi lleol. Cynhaliwyd cyfarfod agored yn nhafarn yr "Highwayman" ac o ganlyniad sefydlwyd Clwb Rygbi San Cler.

Gyda cytundeb a cefnogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin a prifathro Ysgol Griffith Jones, cafwyd defnydd o ystafelloedd newid a cae rygbi'r ysgol ar gyfer chwarae gemau cartref. Daeth y clwb yn aelod o Undeb Rygbi Sir Benfro a chwaraewyd y gêm gyntaf i ffwrdd yn erbyn RAF Brawdy.

Yn dilyn tymor cyntaf cofiadwy, cynhaliwyd cinio blynyddol cyntaf y clwb ym mis Mehefin 1986, yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Delme Thomas. Siaradodd Delme am y profiadau gwych cafodd ef wrth chwarae rygbi ar draws y byd, wrth gynrychioli Llanelli, Cymru a'r Llewod. Cyfeiriodd hefyd am y mwynhad cafodd yn chwarae i dîm rygbi ieuenctid San Cler ar ddechrau'r chwech degau. Cyflwynodd Delme 5 crys rygbi rhyngwladol roedd wedi cyfnewid gyda chwaraewyr o Ffrainc, Lloegr, Alban, Iwerddon a Seland Newydd i'r clwb – ma rhain yn cael eu harddangos yn nhafarn y "Black Lion", man cyfarfod y clwb. Cytunodd Delme i fod yn Aelod Oes cyntaf y clwb. Asgwrn cefn pob clwb rygbi llwyddiannus yw criw arbennig a gweithgar o wirfoddolwyr, yn cael eu harwain gan bwyllgor ymroddgar a swyddogion brwdfrydig sef :-

Llywydd – Malcolm Herbert
Cadeirydd – Gwyndaf Williams
Ysgrifennydd – Ian Thomas
Trysorydd – Eirian Page

Yr hyfforddwyr yw Rhodri Jones a Mike Jones a capten y tîm yw Gareth Jones. Mae'r clwb yn chwarae yng Nghyngrair Adran 3A y Gorllewin ac yn ymarfer bob nos Fawrth a nos Iau. Cyn i'r gynghrair ail ddechrau ym mis Tachwedd, bu'r clwb yn chwarae yng nghystadleuaeth Cwpan y Bowl rhwng mis Awst ac Hydref. Cawsant lwyddiant mawr drwy ennill 8 o'r gemau a cael dwy gêm gyfartal. Aethant ymlaen wedyn i chwarae yn erbyn Wrecsam gan ennill o 34 i 0, cyn colli yn erbyn y Tymbl o 27 i 29 yn rownd y 16 olaf o'r cwpan.

Dyma ganlyniadau y gemau ers dechrau'r gynghrair :-

Tachwedd
13eg - Hwlfford 27 - San Cler 13
27ain - San Cler 26 - Tregaron 0
Rhagfyr
4ydd - San Cler 18 - Aberaeron 7
11eg - Neyland 20 - San Cler 27
18fed - San Cler 61 - Llangwm 5
Ionawr
8fed - Llanbed 24 - San Cler 17
15fed - San Cler 36 - Aberteifi 10
29ain - Tyddewi 5 - San Cler 55
Ebrill
2il - San Cler 37 - Talacharn 3
9fed - San Cler Doc Penfro


Carfan Tîm Rygbi San Cler

**Tim ieuenctid**
Hyfforddwyr y tim ieuenctid yw Tony Lewis, Ian Miles, Carwyn Davies a Michael Phillips a'r capten yw Thomas Mason. Mae'r tîm yn chwarae yng Nghyngrair A Caerfyrddin ac yn ymarfer bob nos Fercher. Fe wnaethant ennill pob gêm o ddechrau'r tymor hyd at wythnos cyn y Nadolig, felly da iawn bois, daliwch ati.


Llun Tîm Ieuenctid

Dyma ganlyniadau y gemau diweddar :-
**Rhagfyr**
14eg - Porth Tywyn 6 - San Cler 10
21ain - San Cler 5 - Furnace 8
**Ionawr** 29ain - Newbridge 13 - San Cler 17
**Chwefror** 25ain - Caerlleon 15 - San Cler 12
**Mawrth** 26ain - Rhydaman 0 San Cler 29
**Ebrill** 2il Llanbed 00 - San Cler 00

Mae'r clwb hefyd yn rhedeg timai iau - dan 7, 8, 9, 10, 11, 12, 14 a 15 ar ddydd Sul ac mae'n braf gweld y plant yn mwynhau chwarae'r gêm. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl wirfoddolwyr, cefnogwyr a noddwyr am eu cefnogaeth, gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

*parhad ar dudalen 39*